# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 3, Senedd a fideogynhadledd ar Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 13 Medi 2023

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Owain Roberts**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6388

SeneddCyllid@senedd.cymru

## Cofrestru (09.00-09.15)

## Rhag-gyfarfod Preifat (09.15-09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Papur(au) i'w nodi

(09.30) (Tudalennau 1 - 10)

Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 21 Mehefin, 28 Mehefin a 6 Gorffennaf.

**2.1 PTN 1 - Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) - Amserlen ddiwygiedig - 30 Mehefin 2023**

(Tudalennau 11 - 14)

**2.2 PTN 2 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol - Cyllid: Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol - 6 Gorffennaf 2023**

(Tudalennau 15 - 16)

**2.3 PTN 3 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Ystadegau alldro cyfraddau Treth Incwm Cymru 2021-22 - 7 Gorffennaf 2023**

(Tudalennau 17 - 18)

**2.4 PTN 4 - Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Gorwariant cyllideb ysgolion - 11 Gorffennaf 2023**

(Tudalen 19)

2.5 **PTN 5 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Gwybodaeth ariannol i Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol ei hystyried wrth gynllunio eu cyllideb – 12 Gorffennaf 2023**

(Tudalennau 20 – 21)

2.6 **PTN 6 – Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Amserlen Cyllideb Ddrafft 2024-25 – 17 Gorffennaf 2023**

(Tudalennau 22 – 23)

2.7 **PTN 7 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) – 13 Gorffennaf 2023**

(Tudalen 24)

2.8 **PTN 8 – Llythyr gan y Prif Weinidog at y Llywydd: Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 – 27 Gorffennaf 2023**

(Tudalen 25)

2.9 **PTN 9 – Craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2023-24: Ymateb Llywodraeth Cymru – 11 Awst 2023**

(Tudalennau 26 – 33)

2.10 **PTN 10 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio – 23 Awst 2023**

(Tudalen 34)

2.11 **PTN 11 – Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru): Ymateb Llywodraeth Cymru – 1 Medi 2023**

(Tudalennau 35 – 41)

2.12 **PTN 12 – Llythyr at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Taliad costau byw – 11 Gorffennaf 2023**

(Tudalennau 42 – 43)

2.13 **PTN 13 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Taliad costau byw – 1 Awst 2023**

(Tudalennau 44 – 45)

2.14 **PTN 14 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol – Cyllid: Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol – 7 Medi 2023**

(Tudalennau 46 – 47)

2.15 PTN 15 – Llythyr gan Archwilio Cymru: Hysbysiad o derfynau amser archwilio – 3 Awst 2023

(Tudalennau 48 – 50)

2.16 PTN 16 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Papurau tystiolaeth yn ategu Cyllideb Ddrafft 2024-25 – 8 Medi 2023

(Tudalennau 51 – 52)

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd ar gyfer eitemau 4,5,7,8,9 ac 10.

(09.30)

## 4 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 – Briff technegol gyda'r Prif Economegydd

(09.30-10.00) (Tudalennau 53 – 68)

Jonathan Price, Prif Economegydd, Llywodraeth Cymru

Julian Revell – Pennaeth Dadansoddi Cyllidol, Llywodraeth Cymru

**Dogfennau ategol:**

FIN(6)-13-23 P1 – Sleidiau cyflwyno

## 5 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 – Briff technegol gyda'r Prif Economegydd: Trafod y dystiolaeth

(10.00-10.15)

## 6 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 – Craffu cyn y Gyllideb

(10.15-11.15) (Tudalennau 69 – 79)

Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Emma Watkins, Dirprwy Gyfarwyddwr y Gyllideb a Busnes y Llywodraeth

Gawain Evans, Cyfarwyddwr Cyllid

**Dogfennau ategol:**

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

## 7 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 - Craffu cyn y Gyllideb: Trafod y dystiolaeth

(11.15-11.30)

## 8 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25: Y dull craffu ar y gyllideb

(11.30-11.45) (Tudalennau 80 - 95)

**Dogfennau ategol:**

FIN(6)-13-23 P2 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol - 20 Gorffennaf 2023

FIN(6)-13-23 P3 - Llythyr gan y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes - 2 Awst 2023

FIN(6)-13-23 P4 - Llythyr gan y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes - 4 Gorffennaf 2023

FIN(6)-13-23 P5 - Y Dull o Graffu ar y Gyllideb

FIN(6)-13-23 P6 - Llythyr ymgynghori

## 9 Adolygu protocol y gyllideb

(11.45-12.00) (Tudalennau 96 - 112)

**Dogfennau ategol:**

FIN(6)-13-23 P7 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Llywydd - 9 Awst 2023

FIN(6)-13-23 P8 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol - 20 Gorffennaf 2023

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

## 10 Gwaith yn y dyfodol: Cynllunio strategol

(12.00-12.30) (Tudalennau 113 - 119)

**Dogfennau ategol:**

FIN(6)-13-23 P9 - Cynllunio strategol

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 3, Senedd a fideogynhadledd ar Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 21 Mehefin 2023

Amser: 10.15 - 11.20

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn: http://senedd.tv/cy/13612

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Peter Fox AS<br>Mike Hedges AS |
| Tystion: | Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol<br>Sharon Bounds, Llywodraeth Cymru<br>Emma Watkins, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Owain Roberts (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Georgina Owen (Ail Glerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc) |

## Cofrestru (09.15-09.30)

## Rhag-gyfarfod preifat - Anffurfiol (09:30 - 10:15)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhianon Passmore AS.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

2.1 Papur i'w nodi 1 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol – Gwaith craffu ariannol ar Fyrddau Iechyd – 24 Ebrill 2023

2.2 Papur i'w nodi 2 – Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2022-23: Ymateb Llywodraeth Cymru – Ebrill 2023

2.3 Papur i'w nodi 3 – Llythyr oddi wrth Peter Fox AS at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Bil Bwyd (Cymru) – 4 Mai 2023

2.4 Papur i'w nodi 4 – Adroddiad Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru): Ymateb Llywodraeth Cymru – 5 Mai 2023

2.5 Papur i'w nodi 5 - Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) - 5 Mai 2023

2.6 Papur i'w nodi 6 – Llythyr oddi wrth Jonathan Athow, CThEF: Gweinyddu Cyfraddau Treth Incwm Cymru (WRIT) – 9 Mai 2023

2.7 Papur i'w nodi 7 – Llythyr oddi wrth y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Bil Amaethyddiaeth (Cymru) – 9 Mai

2.8 Papur i'w nodi 8 – Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Chwyddiant yn yr amcangyfrifon o gostau sy'n cyd-fynd â Biliau'r dyfodol – 12 Mai 2023

2.9 Papur i'w nodi 9 – Llythyr oddi wrth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Y DU/Iwerddon/CE: Cytundeb Ariannu ar Raglen PEACE PLUS 2021-2027 – 12 Mai 2023

2.10 Papur i'w nodi 10 – Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol – 17 Mai 2023

**2.11 Papur i'w nodi 11 – Bil Bwyd (Cymru): Ymateb gan Peter Fox AS, yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil – 19 Mai 2023**

**2.12 Papur i'w nodi 12 – Llythyr oddi wrth Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Bil Bwyd (Cymru) – 31 Mai 2023**

**2.13 Papur i'w nodi 13 – Llythyr oddi wrth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) – Gwelliant Cyfnod 2 y Llywodraeth – 24 Mai 2023**

**2.14 Papur i'w nodi 14 – Llythyr oddi wrth Gomisiwn y Senedd: Diweddariad mewn perthynas ag argymhelliad adroddiad y Pwyllgor – 24 Mai 2023**

**2.15 Papur i'w nodi 15 – Llythyr oddi wrth y Gweinidog Newid Hinsawdd: Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) – 31 Mai 2023**

**2.16 Papur i'w nodi 16 – Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Cyllid: Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol – 13 Mehefin 2023**

## 3 Cyllideb Atodol gyntaf Llywodraeth Cymru 2023-24: Sesiwn dystiolaeth

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol; Emma Watkins, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyllideb a Busnes y Llywodraeth a Sharon Bounds, Dirprwy Gyfarwyddwr, Rheolaeth Ariannol ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24.

3.2 Cytunodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i ofyn i'r Gweinidog Addysg ddarparu nodyn ar:

- orwariant ar gyllideb ysgolion ac a ellir cario unrhyw ddiffyg ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

4.1 Derbyniwyd y cynnig

## 5 Cyllideb Atodol gyntaf Llywodraeth Cymru 2023-24: Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law

## 6 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Ardrethu Annomestig

6.1 Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a chytunodd i beidio â chymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ardrethu Annomestig.

## 7 Archwilio Cymru - Hysbysiad o derfynau amser archwilio

7.1 Trafododd y Pwyllgor y papur ar yr hysbysiad o derfynau amser archwilio a chytunodd i ysgrifennu at Archwilio Cymru.

## 8 Ymgynghori â Phwyllgorau'r Senedd ar y dogfennau sy'n cyd-fynd â'r Gyllideb Ddrafft

8.1 Trafododd y Pwyllgor y llythyrau a gyflwynwyd gan gadeiryddion Pwyllgorau a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol.

## 9 Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru): Trafod yr adroddiad drafft

9.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod yr adroddiad drafft a chytunodd arno.

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 28 Mehefin 2023

Amser: 09.30 - 11.58

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/13366) yn: [http://senedd.tv/cy/13366](http://senedd.tv/cy/13366)

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Peter Fox AS<br>Mike Hedges AS<br>Rhianon Passmore AS |
| Tystion: | Sir Paul Silk<br>Dyfrig John<br>Lord Bourne of Aberystwyth<br>Eurfyl ap Gwilym<br>Julie James AS, Y Gweinidog Newid Hinsawdd<br>Neil Hemington, Llywodraeth Cymru<br>Owen Struthers, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Owain Roberts (Clerc)<br>Georgina Owen (Ail Glerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| | Christian Tipples (Ymchwilydd)<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 2.1 Papur i'w nodi 1 - Llythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Caniatâd i apelio yn erbyn penderfyniad gan Banel Dyfarnu Cymru - 22 Mehefin 2023

## 3 Comisiwn Silk - 10 mlynedd yn ddiweddarach: Sesiwn dystiolaeth

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ar Gomisiwn Silk - 10 mlynedd yn ddiweddarach, gan Syr Paul Silk, Dyfrig John, Arglwydd Bourne o Aberystwyth ac Eurfyl ap Gwilym.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 5, 6 ac 8 ac o'r cyfarfod ar 6 Gorffennaf.

4.1 Derbyniwyd y cynnig

## 5 Comisiwn Silk - 10 mlynedd yn ddiweddarach: Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law

## 6 Cyllideb Atodol gyntaf Llywodraeth Cymru 2023-24: Trafod yr adroddiad drafft

6.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad a chytunodd i'w gymeradwyo yn amodol ar fân newidiadau.

## 7 Goblygiadau ariannol Bil Seilwaith (Cymru): Sesiwn dystiolaeth

7.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth am Oblygiadau Ariannol Bil Seilwaith (Cymru) gan Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd; Neil Hemington, Prif Gynllunydd, Llywodraeth Cymru; ac Owen Struthers, Pennaeth Cydsynio Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru.

## 8 Goblygiadau ariannol Bil Seilwaith (Cymru): Trafod y dystiolaeth

8.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 6 Gorffennaf 2023

Amser: 09.30 - 10.50

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13627

# O bell, Prifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Peter Fox AS<br>Mike Hedges AS<br>Rhianon Passmore AS |
| Staff y Pwyllgor: | Owain Roberts (Clerc)<br>Georgina Owen (Ail Glerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Catherine McKeag (Ysgrifenyddiaeth)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd) |

**Yn ei gyfarfod ar 28 Mehefin 2023, cytunodd y Pwyllgor ar gynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod heddiw.**

## Cofrestru (09.15-09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid.

## 2 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25: Y Dull o Graffu ar y Gyllideb

2.1 Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a'r papur ar y dull o graffu ar y gyllideb.

2.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol am amserlen y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25.

## 3 Trafod Blaenraglen Waith y Pwyllgor

3.1 Trafododd y Pwyllgor y Flaenraglen Waith.

## 4 Goblygiadau ariannol deddfwriaeth arfaethedig i ddiwygio'r Senedd

4.1 Trafododd y Pwyllgor y papur ar oblygiadau ariannol deddfwriaeth arfaethedig i ddiwygio'r Senedd.

## 5 Senedd y DU: Y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol

5.1 Trafododd y Pwyllgor y cylch gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad.

## 6 Trafod yr ymatebion i'r adolygiad o'r Datganiad o Egwyddorion

6.1 Trafododd y Pwyllgor yr ymatebion i'r adolygiad o'r Datganiad o Egwyddorion.

## 7 Archwilio Cymru - Amcangyfrif Atodol 2023-24

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor Amcangyfrif Atodol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2023-24.

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Eitem 2.1

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyllid

30 Mehefin 2023

Annwyl Gydweithiwr

**Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) – Cyfnodau Craffu 2 a 3 y Senedd**

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am gynnydd Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) ("y Bil"), ac i roi gwybodaeth ychwanegol i gefnogi nifer o argymhellion neu welliannau a godwyd gan Aelodau'r Pwyllgor wrth graffu ar y Bil.

**1. Cynnydd Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) a'r rhyngberthynas â Bil Caffael Llywodraeth y DU.**

Mae adran 2 o'r Bil yn diwygio Deddf Caffael 2023 (mae'r Bil yng nghamau olaf y broses graffu seneddol ar hyn o bryd), drwy fewnosod adran newydd i alluogi Gweinidogion Cymru i ddatgymhwyso darpariaethau'r Ddeddf honno a fyddai fel arall yn berthnasol i gaffael gwasanaethau a ddarperir fel rhan o'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Mae adran 3 o'r Bil yn mewnosod adran newydd (10A) yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 sy'n caniatáu i ddarpariaeth amgen gael ei gwneud mewn perthynas â chaffael gwasanaethau iechyd y GIG yng Nghymru.

Dim ond nawr mae Bil Caffael Llywodraeth y DU yn dechrau ar y cam craffu olaf yn Nhŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi. Mae'n cymryd mwy o amser nag a ragwelwyd yn wreiddiol pan geision ni gyflwyno'r Bil drwy amserlen garlam yn ôl ym mis Chwefror eleni. Roedd ein hamserlen ar y pryd yn seiliedig ar yr amserlen wreiddiol ar gyfer y Bil Caffael. Byddai hyn wedi golygu y byddai wedi cwblhau'r cyfnodau craffu seneddol ac wedi cael Cydsyniad Brenhinol ddiwedd y Gwanwyn eleni. Er y bu llithriant yn yr amserlen, roeddem yn obeithiol y byddai'r broses wedi'i chwblhau cyn toriad haf y Senedd. Fodd bynnag, mae hyn bellach yn edrych yn annhebygol iawn ac, yn anffodus, mae hyn yn amharu ar amseru a chynnydd y Bil.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nid yw'r darpariaethau terfynol a threfn y Bil Caffael wedi'u ‘setlo’ ar hyn o bryd, ac maent yn dal i fod yn destun newidiadau cyn symud tuag at gael Cydsyniad Brenhinol. Yn ymarferol, gallai'r cyfnodau olaf hyn gymryd sawl wythnos arall ac nid oes dyddiad wedi'i nodi ymlaen llaw ar gyfer eu cwblhau; sy'n golygu nad oes dyddiad terfynol eto ar gyfer cwblhau'r Bil Caffael.

Mae angen setlo'r Bil Caffael er mwyn hwyluso nifer fach o ddiwygiadau rhifiadol technegol i Fil Caffael y Gwasanaeth Iechyd yn dilyn newidiadau a fu i'r Bil Caffael ers cyflwyno Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd ym mis Chwefror. Mae'r rhain yn ymwneud â rhifo'r pŵer datgymhwyso, fel y nodir uchod, gan sicrhau ei fod yn dilyn yn union ar ôl y pŵer tebyg i Weinidogion y Goron yn Lloegr; a sicrhau bod diwygiadau canlyniadol eraill yn cael eu cynnwys yn y lle iawn a bod y croesgyfeiriadau yn gywir.

Mae trafodion Cyfnod 3 y Bil wedi'u trefnu i gael eu cynnal yn y Senedd ar 11 Gorffennaf ar hyn o bryd; sy'n golygu bod angen setlo'r Bil Caffael cyn y dyddiad hwnnw. Gan ei bod yn fwyfwy annhebygol y bydd hyn yn digwydd erbyn 11 Gorffennaf, rwyf bellach yn cynnig bod y gwaith craffu Cyfnod 3 a Chyfnod 4 ar y Bil yn cael ei ohirio tan ar ôl toriad haf y Senedd. Bydd hyn yn caniatáu digon o amser ar gyfer setlo'r Bil Caffael, ac felly yn caniatáu ar gyfer sicrhau rhifo cywir o fewn Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd cyn cynnal unrhyw drafodion craffu pellach yn y Senedd.

Rwy'n ymwybodol y bydd Aelodau efallai'n teimlo'n siomedig, fel minnau, gyda'r oedi yng nghynnydd y Bil, yn enwedig ar ôl cytuno i'm cais am Fil llwybr carlam yn ystod y cyfnod cyflwyno. Fodd bynnag, rwy'n siŵr y byddant yn deall y sefyllfa a'i bod allan o'n dwylo ni; ond rwy'n dal i gredu mai dyma'r dull gorau o sicrhau bod y Bil yn gywir, cyn cwblhau proses graffu'r Senedd.

Bydd fy swyddogion a minnau yn parhau i fonitro cynnydd y Bil Caffael yn ofalus a byddaf yn cysylltu â'r Llywydd a'r Pwyllgor Busnes i gytuno ar ddyddiad diwygiedig ar gyfer trafodion Cyfnod 3 a 4 ar ôl toriad yr haf.

Yn y cyfamser, bydd fy swyddogion yn bwrw ymlaen â chyflwyno'r Memorandwm Esboniadol a'r Nodiadau Esboniadol diwygiedig yn unol â Rheol Sefydlog 26.28, sy'n ei gwneud yn ofynnol inni osod y ddogfennaeth o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn trafodion cyfnod 3.

**2. Gwybodaeth ychwanegol mewn ymateb i argymhellion neu welliannau a godwyd gan Bwyllgorau.**

Yn ystod gwaith craffu'r Bil yn y Senedd, ymrwymais i ddarparu ymateb ysgrifenedig i nifer o faterion a godwyd gan y pwyllgorau craffu. Mae'r wybodaeth ychwanegol hon i'w gweld yn **Atodiad A**.

Unwaith eto, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch unwaith eto i'r tri Phwyllgor am graffu ar y Bil a'i ddogfennaeth ategol.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

**ATODIAD A**

**GWYBODAETH YCHWANEGOL MEWN YMATEB I ARGYMHELLION NEU WELLIANNAU – BIL CAFFAEL Y GWASANAETH IECHYD (CYMRU).**

1. ***Argymhelliad 6 o adroddiad craffu cyfnod 1 y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol – mewn perthynas â sicrhau bod dull gweithredu, ac unrhyw ofynion, cyfundrefn gaffael newydd y gwasanaeth iechyd yn cael eu cyfleu'n effeithiol ac yn hygyrch i'r holl randdeiliaid perthnasol.***

Yn ystod y ddadl ar yr Egwyddorion Cyffredinol, nodais fy mod yn hapus i dderbyn yr argymhelliad hwn. Ymrwymais i roi rhagor o fanylion i'r Pwyllgor ar sut y byddwn yn sicrhau yr ymgysylltir yn effeithiol â rhanddeiliaid wrth weithredu trefn gaffael newydd arfaethedig y gwasanaeth iechyd.

Bydd fy swyddogion yn llunio cynllun cynhwysfawr ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid fel rhan o ddatblygu rheoliadau'r dyfodol, y canllawiau statudol a gweithredu'r drefn gaffael newydd arfaethedig. Bydd y cynllun hwn yn adeiladu ar yr ymgysylltu cychwynnol a wnaed hyd yma â rhanddeiliaid wrth baratoi'r Bil a'i nod fydd ceisio ymgysylltu'n rhagweithiol â rhanddeiliaid, grwpiau ac unigolion perthnasol a fydd yn cael eu heffeithio gan weithrediad trefn gaffael newydd y gwasanaeth iechyd.

Mewn perthynas ag egwyddorion gweithredol rheoliadau'r dyfodol a chanllawiau statudol ategol, rhagwelir y bydd yr ymgysylltu'n cael ei gynnal ar ffurf cyfarfodydd un i un gyda grwpiau rhanddeiliaid priodol i godi ymwybyddiaeth o'r cynigion. Bydd yr ymgysylltiad rhagweithiol hwn yn cael ei gefnogi gan ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol am 12 wythnos ar yr egwyddorion gweithredol yn dilyn prosesau ymgynghori cyhoeddus sefydledig Llywodraeth Cymru.

Mewn perthynas â chyfathrebu gweithredu'r drefn newydd arfaethedig, bydd fy swyddogion yn gweithio gyda'r awdurdodau perthnasol i ddarparu hyfforddiant ar ofynion gweithredol y drefn newydd arfaethedig. Rhagwelir y bydd hyn yn cael ei wneud mewn partneriaeth â thimau caffael GIG Cymru ac awdurdodau lleol Cymru, a'i gyflwyno dros sawl mis, cyn i'r drefn newydd ddod i rym. Wrth wneud hyn, mae fy swyddogion hefyd yn ymwybodol y bydd angen cyd-fynd â hyfforddiant a gynlluniwyd gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer eu Cyfundrefn Dethol Darparwyr arfaethedig a hyfforddiant yn ymwneud â'r diwygiadau caffael ehangach o dan Fil Caffael Llywodraeth y DU a fydd yn cael ei arwain gan swyddogion yn Is-adran Caffael Corfforaethol Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU.

2. ***Argymhelliad 7 o adroddiad craffu cyfnod 1 y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac Argymhelliad 4 o adroddiad craffu cyfnod 1 y Pwyllgor Cyllid – mewn perthynas â monitro ac adolygu gweithrediad y Bil.***

Yn ystod y ddadl ar yr Egwyddorion Cyffredinol, nodais fy mod yn hapus i dderbyn y ddau argymhelliad uchod o ran adolygu effeithiolrwydd y drefn gaffael newydd yn y dyfodol ac ymrwymais i gynnwys darpariaethau yn y canllawiau statudol i fonitro effeithiolrwydd y drefn newydd arfaethedig. Ymrwymais hefyd i ysgrifennu at y Pwyllgorau craffu i nodi ein dull arfaethedig.

Yn y trafodion pwyllgor craffu cyfnod 2, cyflwynwyd gwelliant gan Gareth Davies AS ar ffurf Gwelliant 10 i adolygu effeithiolrwydd y Ddeddf. Er fy mod yn derbyn egwyddor y gwelliant a gynigiwyd, nid oeddwn yn gallu derbyn y gwelliant fel y'i drafftiwyd. Roedd dau reswm dros hyn - yn gyntaf, byddai'r gwelliant fel y'i drafftiwyd yn adolygu dwy ddarpariaeth sy'n diwygio

dau ddeddfwriaeth arall ac felly ni fyddai'n arbennig o effeithiol o ran monitro effeithiolrwydd y Ddeddf. Yn ail, roedd angen i ni gofio bod angen hyblygrwydd mewn unrhyw gyfnod adolygu arfaethedig i gyd-fynd â'r cyfnodau adolygu y bydd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn eu gweithredu ar gyfer eu Cyfundrefn Dethol Darparwyr arfaethedig.

Gan gydnabod egwyddor y gwelliant arfaethedig, yn ystod trafodion cyfnod 2 cynigiais weithio gyda Gareth Davies AS i ddod o hyd i ateb derbyniol sy'n cynnwys darpariaeth adolygu ar wyneb y Bil y gellir ei gynnwys yn ystod gwaith craffu Cyfnod 3.

***3. Cynnwys defnyddwyr gwasanaethau mewn penderfyniadau caffael***

Yn y trafodion pwyllgor craffu cyfnod 2, cyflwynwyd gwelliant gan Rhun ap Iorwerth AS ar ffurf Gwelliant 14 mewn perthynas â 'sicrhau cyfranogiad pobl y bwriedir i'r gwasanaethau neu'r nwyddau fod o fudd iddynt'.

Er fy mod yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod gwasanaethau iechyd yn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau, nid oeddwn yn gallu derbyn y gwelliant hwn gan fy mod yn credu y byddai gosod darpariaeth ar wyneb y Bil i ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau (a allai mewn theori ymestyn at geisio barn defnyddwyr gwasanaethau ar ddyfarnu contractau i ddarparwyr gwasanaethau unigol) yn anymarferol ac yn rhy feichus. Byddai darpariaeth o'r fath hefyd yn dyblygu swyddogaeth y corff annibynnol newydd ei sefydlu, Llais, a'i rôl i gasglu barn a phrofiadau defnyddwyr gwasanaethau i siapio darpariaeth y gwasanaeth iechyd yng Nghymru.

At hynny, mae Adran 15 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 eisoes yn gwneud darpariaeth i alluogi Llais (yn ei rôl fel Corff Llais y Dinesydd) i gyflwyno sylwadau i 'awdurdodau lleol a chyrff GIG Cymru' mewn perthynas â darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Byddai hyn yn cynnwys sylwadau ynghylch sut y mae gwasanaethau o'r fath yn cael eu caffael.

Felly, mae mecanwaith statudol eisoes ar waith i sicrhau bod awdurdodau perthnasol yn cael gwybod am farn defnyddwyr gwasanaethau a bod rhaid iddynt roi sylw i'r safbwyntiau hynny. Mae hyn yn cael ei ategu gan y Canllawiau Statudol ar Sylwadau a wnaed gan Gorff Llais y Dinesydd – mae dolen i'r rhain yma.

Er mwyn peidio â dyblygu swyddogaethau statudol Llais, byddaf yn sicrhau bod croesgyfeirio addas at Llais yn y canllawiau statudol a fydd yn cyd-fynd â'r rheoliadau yn y dyfodol a gweithrediad cyfundrefn gaffael newydd arfaethedig y gwasanaeth iechyd.

Eitem 2.2

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: RE-231-2023

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

06 Gorffennaf 2023

Annwyl Peredur,

Yn bellach i fy llythyr diweddar yn rhoi gwybod ichi am gyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid a gynhaliwyd ar 22 Mehefin ym Mharc Cathays, Caerdydd, ac a gadeiriwyd gennyf i, hoffwn roi adroddiad cryno ichi ar y trafodaethau a gafwyd. Hefyd cyhoeddwyd neges ar ôl y cyfarfod hwnnw:
Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid - 22 Mehefin 2023 - GOV.UK (www.gov.uk)

Roedd y Gwir Anrhydeddus John Glen AS, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys, a Shona Robison ASA, Dirprwy Brif Weinidog yr Alban ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yn bresennol gyda mi. Fe wnaeth swyddogion o Weithrediaeth Gogledd Iwerddon fynychu'n rhithiol i arsylwi.

O ran cyllid yr UE, adroddais ar y cam gweithredu o'r cyfarfod blaenorol. Dywedais fod y trafodaethau wedi bod yn gyfle i geisio eglurder a mynegi pryderon, a'u bod o gymorth i ddeall yr asesiadau amrywiol a'r mannau lle'r oedd gwahaniaethau wedi codi yn ein cyfrifiadau o gyllid llawn yn lle cyllid yr UE. Er mwyn symud ymlaen, pwysleisiais bwysigrwydd ymgysylltu'n gynt.

Roedd rhan gyntaf y cyfarfod yn canolbwyntio ar y pwysau ar wariant cyhoeddus a'r rhagolygon economaidd lle'r oedd yr argyfwng costau byw a chwyddiant yn parhau yn ganolog i'r drafodaeth. Gofynnais i Brif Ysgrifennydd y Trysorlys ystyried cymorth ychwanegol ar gyfer prynwyr ynni sy'n agored i niwed, y rheini sydd ar Gredyd Cynhwysol, a gwasanaethau sy'n rhoi cyngor ar ddyled.

Yn ystod y drafodaeth ar gyflogau yn y sector cyhoeddus, anogais Lywodraeth y DU i ddarparu cyllid ychwanegol ar gyfer y GIG er mwyn cefnogi ei waith hanfodol wrth i'w ben-blwydd yn 75 oed nesáu, gan bwyso i gael eglurder o ran a ddarperir cyllid ychwanegol ar gyfer y llywodraethau datganoledig o ganlyniad i'r cynigion cyflog i'r GIG a'r Gwasanaeth Sifil yn Lloegr. Gan adeiladu ar y trafodaethau blaenorol ar hyblygrwydd cyllidebol, roeddwn yn

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gallu defnyddio'r drafodaeth ar gyflogau fel enghraifft i ddangos pa mor bwysig yw hi bod Llywodraeth Cymru yn cael yr hyblygrwydd hwn.

Canolbwyntiodd ail ran y cyfarfod ar ddiogelwch ynni. Pwysleisiais ba mor bwysig oedd cydweithio wrth fynd i'r afael â diogelwch ynni a sicrhau bod y gost o sicrhau sero net yn cael ei gymdeithasoli a'i rannu mewn modd teg, er mwyn sicrhau nad yw'r bobl dlotaf yn ein cymunedau yn wynebu'r cynnydd cymharol fwyaf yn y costau y maent yn eu talu.

Rhoddais ddisgrifiad cryno o'r rhaglenni arloesol yr ydym yn buddsoddi ynddynt, gan argymell prosiectau y gallai Llywodraeth y DU ystyried buddsoddi ynddynt. Hefyd anogais fod buddsoddiad yn y grid trydan yng Nghymru.

Yn olaf, ceisiais gytundeb bod swyddogion yn adolygu cylch gorchwyl y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid a'r Protocolau Gweithredu, er mwyn sicrhau bod cyfarfodydd yn rhedeg yn ôl y disgwyl o gymharu â phryd y cynhyrchwyd y dogfennau 18 mis yn ôl. Bydd swyddogion yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf.

Llywodraeth y DU fydd yn lletya'r cyfarfod nesaf ym mis Medi.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: RE-232-2023

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

07 Gorffennaf 2023

Annwyl Peredur,

**YSTADEGAU ALLDRO CYFRADDAU TRETH INCWM CYMRU 2021-22**

Bydd y Pwyllgor yn dymuno gwybod bod Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi wedi cyhoeddi'r drydedd set o ystadegau alldro blynyddol ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru. Mae'r ystadegau alldro yn dangos bod cyfraddau treth incwm Cymru yn 2021-22 wedi cynhyrchu £2.4 biliwn, sydd £244 miliwn neu 11.4% yn fwy na 2020-21.

Mae hyn £320 miliwn (16%) yn uwch nag a ragwelwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn nhymor yr hydref 2020 ac a ddefnyddiwyd yng Nghyllideb 2021-22 Llywodraeth Cymru.

Mae'r alldro ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon hefyd yn uwch nag a ddefnyddiwyd yn yr addasiad cysylltiedig i'r grant bloc yng Nghyllideb 2021-22. Bydd y ffigurau alldro yn cael eu defnyddio i gyfrifo addasiad terfynol i'r grant bloc ar gyfer 2021-22, pan fydd cyfres o amcangyfrifon o'r boblogaeth sy'n cyd-fynd â Chyfrifiad 2021 yn cael ei gyhoeddi gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Medi.

Caiff y gwahaniaeth rhwng y refeniw treth incwm a'r addasiadau i'r grant bloc a ddefnyddiwyd yng Nghyllideb 2021-22 Llywodraeth Cymru a'r alldro terfynol ei ddefnyddio i gyfrifo swm cysoni. Bydd hwn yn cael ei gymhwyso i ddyraniad grant bloc 2024-25 Llywodraeth Cymru. Yn seiliedig ar yr amcangyfrifon poblogaeth cyfredol, mae'r cysoni'n debygol o fod yn gadarnhaol.

Pan fydd yr amcangyfrifon poblogaeth diwygiedig yn cael eu cyhoeddi ym mis Medi, bydd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cyhoeddi datganiad ar y cyd yn nodi'r swm cysoni a sut y mae wedi'i gyfrifo. Diben hyn yw sicrhau tryloywder a helpu i wella dealltwriaeth ehangach o'r Fframwaith Cyllidol. Byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor i roi gwybod iddynt am yr wybodaeth hon ar yr adeg briodol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae dolen i'r ystadegau yn:

Scottish and Welsh Income Tax Outturn Statistics - GOV.UK (www.gov.uk) [Saesneg yn unig]

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Chair Finance Committee
SeneddFinance@senedd.wales

11 Gorffennaf 2023

Annwyl Peredur,

Cyfarfu'r Pwyllgor Cyllid ar 21 Mehefin 2023. Roedd cwestiwn 10 yn gofyn a oedd sicrwydd bod y cyllid a ddarperir yn y gyllideb atodol yn ddigonol i dalu am bwysau costau i ysgolion.

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, cytunodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i ofyn i mi ddarparu nodyn ar orwariant cyllideb ysgolion ac a ellir cario unrhyw ddiffyg ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r llythyr hwn yn rhoi fy ymateb i'r ymholiad hwn.

Mae Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 (y rheoliadau) yn dweud bod rhaid i gynlluniau cyllido awdurdodau lleol nodi telerau sy'n ymwneud â chario gwargedion a diffygion sy'n codi mewn perthynas â chyfran cyllideb ysgolion o un cyfnod cyllido i'r llall.

Nid oes gan gorff llywodraethu hawl gyfreithiol i osod cyllideb ddiffyg heb gydsyniad yr awdurdod ac ni ddylai gymryd yn ganiataol y rhoddir caniatâd o'r fath. Mae pob awdurdod yn gyfrifol am ei gynllun ariannu ei hun ac mae'n debygol y byddant yn ystyried cymeradwyo cyllideb ddiffyg ar gyfer ysgol mewn rhai amgylchiadau.

Os oes gan ysgolion ddiffygion mawr, dylai awdurdodau lleol fod yn gweithio'n agos â nhw i sicrhau eu bod yn adfer y sefyllfa cyn gynted â phosibl. Dylai fod gan ysgolion mewn diffyg gynllun adfer cadarn ar waith a dylai hwnnw gael ei gymeradwyo a'i fonitro gan yr awdurdod.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 2.5

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: RE-242-2023

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

12 Gorffennaf 2023

Annwyl Peredur,

Er mwyn cefnogi'r gwaith o lunio blaengynlluniau cyllid ar gyfer cyrff a ariennir yn uniongyrchol, cytunais i ysgrifennu bob blwyddyn ar ddiwedd tymor yr haf i nodi amrywiaeth o ffactorau ar gyfer helpu i gynllunio cyllidebau yn y dyfodol, gan gynnwys asesiad gorau'r Llywodraeth o lefel y cyllid a fydd ar gael yn y blynyddoedd nesaf.

Gan ystyried yn gyntaf sefyllfa gyllidol gyffredinol y DU, roedd rhagolwg diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Mawrth yn rhagweld y gallai diffyg ariannol y DU fod yn £132 biliwn yn 2023-24 ac yn £85 biliwn yn 2024-25. Mae ei hasesiad yn dangos bod Llywodraeth y DU yn cyflawni ei mandad cyllidol o ostwng dyled y sector cyhoeddus fel cyfran o gynnyrch domestig gros erbyn 2027-28, ond dim ond o drwch blewyn. Mae'r diffyg yn ystod dau fis cyntaf y flwyddyn ariannol gyfredol £2 biliwn yn uwch na phroffil y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, ac mae dyled net y sector cyhoeddus newydd godi, sy'n golygu ei bod yn fwy na 100% o gynnyrch domestig gros am y tro cyntaf ers 62 mlynedd.

Nodwyd cynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 yn y Gyllideb Derfynol ym mis Chwefror eleni. Diweddarwyd y rhain yn y Gyllideb Atodol Gyntaf ddiweddar, a oedd yn cynnwys tynnu arian i lawr o gronfeydd wrth gefn i gefnogi awdurdodau lleol gyda chostau dyfarniad cyflog 2022-23 athrawon sy'n disgyn ym mlwyddyn ariannol 2023-24 a sicrhau cyflog cydradd ar gyfer sefydliadau Addysg Bellach.

Roedd Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror yn cynnwys cynlluniau dangosol ar gyfer 2024-25 ochr yn ochr â dyraniadau 2023-24. Mae hyn yn helpu i roi darlun cliriach o'r rhagolygon cyllidebol tymor byr a hefyd yn dangos pa mor dynn yw'r sefyllfa gyllidol tymor byr.

Fel y mae, dim ond 1.4% yn uwch mewn termau arian parod y mae cyfanswm y dyraniadau adnoddau cyllidol i'r Prif Grwpiau Gwariant yn y Terfyn Gwariant Adrannol yn 2024-25 o'i gymharu â'r cyfanswm yn 2023-24, ac mae dyraniadau cyfalaf i lawr ychydig flwyddyn ar ôl

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

blwyddyn mewn termau arian parod. Nid oes swm mawr o arian yn y cronfeydd wrth gefn heb eu dyrannu ac mae'r cynlluniau cyfalaf yn cynnwys gor-raglennu o tua £100 miliwn.

Bydd gennym ragolygon newydd ar gyfer y trethi datganoledig yn yr hydref. Er gwaethaf y newyddion cadarnhaol diweddar am alldro refeniw 2021-22 ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru, nid oes sicrwydd y bydd y rhain yn gwneud y sefyllfa gyllidol gyffredinol yn haws.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys adolygiad cynhyrchiant lle nododd na fyddai'r pwysau ar gyllid y sector cyhoeddus yn cael ei ddatrys drwy drethi uwch na benthyca. Yn hytrach, bydd yr adolygiad yn nodi sut y gellir ymateb i'r pwysau drwy arbedion effeithlonrwydd yn adrannau'r Llywodraeth. Yn y cyd-destun hwnnw, mae'n ymddangos bod y potensial ar gyfer cyllid ychwanegol sylweddol ar gyfer 2024-25 yn Natganiad yr Hydref Llywodraeth y DU yn gyfyngedig iawn. Yn ogystal, mae disgwyliadau cyfraddau llog bellach yn uwch nag ar adeg rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Mawrth, gan erydu ymhellach hyblygrwydd y Canghellor.

Gan droi at brisiau a chyflogau, mae rhagolwg mis Mawrth y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn dangos y bydd y datchwyddydd cynnyrch domestig gros yn cynyddu 2.5% yn y flwyddyn ariannol gyfredol, 1.6% y flwyddyn nesaf, ac yna 1% i 2% fesul blwyddyn wedi hynny. Mae'r un rhagolwg yn dangos cynnydd mwy o 4.1% yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn 2023-24. Mae cyfradd chwyddiant CPI yn uwch na'r disgwyl ar hyn o bryd ac yn asesiad diweddaraf Banc Lloegr disgwylir iddi fod yn uwch na 5% o hyd ym mhedwerydd chwarter 2023. Mae'n ymddangos yn debygol y bydd y datchwyddydd cynnyrch domestig gros hefyd yn uwch na rhagolwg mis Mawrth, gan gynyddu'r pwysau ar Gyllidebau. Mae disgwyl i enillion cyfartalog y DU gynyddu 4.1% yn y flwyddyn ariannol gyfredol, a 1.7% y flwyddyn nesaf.

Nid yw setliad Llywodraeth Cymru wedi cynyddu ar yr un raddfa â'r sioc chwyddiant dros y blynyddoedd diwethaf. Er gwaethaf peth cynnydd diweddar, mae'r setliad eleni yn dal werth hyd at £900 miliwn yn llai mewn termau real na phan gafodd ei osod yn Adolygiad o Wariant 2021.

I grynhoi, mae ein cynlluniau ar gyfer eleni a'n cynlluniau dangosol ar gyfer 2024-25 yn cynrychioli sefyllfa gyllidebol dynn iawn. Mae'n ymddangos bod y rhagolygon ar gyfer dyraniadau pellach gan Lywodraeth y DU yn gyfyngedig iawn ac mae cynnydd parhaus mewn prisiau yn achosi pwysau cynyddol ar yr holl wasanaethau cyhoeddus a ariennir gan gyllideb Llywodraeth Cymru.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Eitem 2.6

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

—

**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru

Copi at: Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid

17 Gorffennaf 2023

**Amserlen Cyllideb Ddrafft 2024-25**

Annwyl Rebecca,

Trafododd y Pwyllgor lythyr y Pwyllgor Cyllid atoch (dyddiedig 7 Gorffennaf 2023) yn ei gyfarfod ar 12 Gorffennaf 2023. Mae'r Pwyllgor yn adleisio'r pryderon a godwyd gan y Pwyllgor Cyllid ynghylch yr amserlen amlinellol ar gyfer craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25.

Fel y mae llythyr y Pwyllgor Cyllid yn ei nodi, dyma'r bumed flwyddyn yn olynol i'r broses ddau gam beidio â chael ei dilyn fel y'i nodir ym Mhrotocol Proses y Gyllideb ("y Protocol"). Mae'r Pwyllgor yn derbyn rhesymau blaenorol dros beidio â dilyn y Protocol, megis pandemig Covid-19 a newidiadau i ddyddiadau digwyddiadau cyllidol Llywodraeth y DU. Ar yr ail o'r ddau bwynt, mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen gwell fframwaith ar gyfer penderfyniadau cyllidol a wneir ledled y DU – a hynny er mwyn sicrhau gwell eglurder ynghylch pryd y bydd dewisiadau ariannol pwysig yn cael eu gwneud. Byddai hyn o fudd i Lywodraeth Cymru, yn ogystal â nifer o gyrff eraill sy'n dibynnu ar benderfyniadau amserol, megis cyrff a ariennir yn gyhoeddus ac awdurdodau lleol. Byddai'r Pwyllgor yn eich annog i godi hyn gyda gweinidogion cyllid eraill yn llywodraethau'r Deyrnas Unedig.

Yn gywir,



Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Aelodau'r Pwyllgor Busnes

13 Gorffennaf 2023

**Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)**

Annwyl Gydweithiwr,

Oherwydd amryfusedd gweinyddol, ni chafodd y ddadl Egwyddorion Cyffredinol ar Fil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) ei chynnwys yn y Datganiad Busnes i'w drafod ar 12 Medi 2023.

Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno dylai'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith gwblhau trafodion Cyfnod 2 cyn 20 Hydref 2023, ar yr amod bod y Senedd yn cytuno ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil, ac mae'r Pwyllgor wedi trefnu trafodion Cyfnod 2 yn amodol yn unol â hynny. Byddai oedi i'r ddadl yn cael effaith sylweddol ar flaengynllun gwaith y Pwyllgor ac felly bydd y Llywodraeth yn cyflwyno cynnig i atal y Rheolau Sefydlog er mwyn galluogi'r ddadl gael ei chynnal yn unol â'r bwriad, ac rydw i'n gofyn i'r Rheolwyr Busnes gefnogi'r cynnig.

Bydd y ddadl ar y cynnig penderfyniad ariannol yn cael ei chynnal ar 19 Medi. Er na ellir cynnal unrhyw drafodion ynglŷn â'r Bil ar ôl Cyfnod 1 oni bai bod y Senedd wedi cytuno ar benderfyniad ariannol; os bydd y Senedd yn cytuno ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil, bydd y ffenestr ar gyfer cyflwyno gwelliannau Cyfnod 2 yn agor, a fyddai'n caniatáu i'r Bil ddilyn yr amserlen bresennol.

Rwy'n gobeithio bydd dod â hyn i'ch sylw nawr yn rhoi digon o amser i chi drafod gyda chydweithwyr cyn inni gyfarfod nesaf ac ymddiheuraf am yr oruchwyliaeth weinyddol

Rwy'n copïo'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Cofion,

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref FM/1990/23

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru

llywydd@senedd.Cymru

27 Gorffennaf 2023

Annwyl Lywydd

Diolch am eich llythyr dyddiedig 12 Gorffennaf mewn perthynas â Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Defnydd Sengl) (Cymru) 2023 a'r broses gychwyn.

Fel y nodwyd yn fy llythyr dyddiedig 22 Mawrth, dyma'r tro cyntaf i Fil a basiwyd gan y Senedd gymryd rhan ym mhroses Sefydliad Masnach y Byd (WTO). Roedd y dull a ddefnyddiwyd gennym mewn perthynas â chyfnod segur WTO o chwe mis yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o'r gofynion a'r mecanweithiau sy'n gysylltiedig â'r broses honno. Rwy'n cydnabod bod budd o adolygu'r broses hon os yw'n helpu i roi mwy o eglurder wrth symud ymlaen a byddaf yn gofyn i fy swyddogion drefnu cyfarfod gyda Chomisiwn y Senedd i drafod ymhellach.

Rwy'n copïo'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir

Mark Drakeford

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakefordy@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 2.9

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA-RE-1954-23

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

11 Awst 2023

Annwyl Peredur,

Diolch am waith craffu'ch Pwyllgor ar Gyllideb Atodol Gyntaf 2023-24 a'r adroddiad dilynol.

Atodaf ymateb ysgrifenedig i argymhellion un i chwech, gan obeithio y bydd yn ddefnyddiol ichi.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I'R ARGYMHELLION YN ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYLLID:**

**CRAFFU AR GYLLIDEB ATODOL GYNTAF LLYWODRAETH CYMRU 2023-24.**

**AWST 2023**

---

**Argymhelliad 1**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu gwybodaeth yn y gyllideb atodol nesaf i ddangos effaith dyfarniadau cyflog ar sefyllfa gyllido Llywodraeth Cymru, a chadarnhau a fydd angen ariannu meysydd o'r fath drwy gyllidebau presennol neu drwy gronfeydd wrth gefn.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru'n credu y dylai holl weithwyr y sector cyhoeddus gael eu gwobrwyo'n deg am y gwaith pwysig y maent yn ei wneud. Yn anffodus, mae ein setliad ariannol yn llawer llai na'r hyn y mae ei angen i ymateb i'r heriau sylweddol iawn y mae ein gwasanaethau cyhoeddus a'n gweithwyr ar draws Cymru yn eu hwynebu.

Ar hyn o bryd, heb gyllid pellach oddi wrth Lywodraeth y DU, byddai angen talu unrhyw gostau cytundebau cyflog yng Nghymru o gyllidebau presennol sydd eisoes o dan bwysau sylweddol wrth inni geisio cefnogi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Fel sy'n wir ar gyfer holl gyllidebau Llywodraeth Cymru, bydd Ail Gyllideb Atodol 2023-24 yn darparu gwybodaeth am yr holl newidiadau i'r cyllidebau presennol a defnyddio Cronfa Wrth Gefn Cymru, a bydd hyn yn cynnwys unrhyw ddyraniadau i gefnogi dyfarniadau cyflog.

---

**Argymhelliad 2**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn parhau i bwyso ar y Trysorlys i ymgysylltu'n gynt ac yn well â Llywodraeth Cymru ynghylch cyhoeddiadau**

**cyllido sylweddol, gyda'r nod o ddarparu mwy o eglurder o ran sefyllfa gyllido Llywodraeth Cymru yn gynharach yn y flwyddyn.**

**Ymateb: Derbyn**

Rydym wedi codi gyda Phrif Ysgrifenyddion olynol i'r Trysorlys yr angen am fwy o eglurder a gwybodaeth fwy amserol am oblygiadau cyhoeddiadau cyllid Llywodraeth y DU ar gyfer Cyllideb Llywodraeth Cymru ochr yn ochr â hyblygrwydd cyllidebol ychwanegol i helpu i reoli'r ansicrwydd hwn.

Ynghyd â'r Gweinidogion Cyllid datganoledig eraill, mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi codi hyn yn y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid ac mae wedi arwain trafodaethau ar wella proses Amcangyfrifon Atodol y DU i gefnogi cynllunio cyllideb effeithiol gan y llywodraethau datganoledig.

Mae diffyg eglurder ar hyn o bryd ynghylch y goblygiadau i Gymru o ran dyfarniadau cyflog Llywodraeth y DU yn y sector cyhoeddus. Gofynnwyd i adrannau Whitehall amsugno costau dyfarniadau diweddar o fewn eu cyllidebau presennol. Ni fyddwn yn gwybod tan Amcangyfrifon Atodol y DU yn ddiweddarach eleni a fu hynny'n wir, a sut y mae hyn yn effeithio ar ein sefyllfa ariannu.

Disgwylir i ddyfarniad Tâl y GIG yn Lloegr gael ei dalu'n rhannol o gyllid newydd gan Drysorlys EF. Gallai graddfa'r goblygiadau ariannol i'r llywodraethau datganoledig fod yn sylweddol. Nid yw Prif Ysgrifennydd y Trysorlys wedi gallu darparu eglurhad hyd yn hyn na nodi beth y dylem ei dybio at ddibenion cynllunio o ran cyllid canlyniadol. Ysgrifennodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i godi ei phryderon gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys ym mis Ebrill, ac eto gyda Dirprwy Brif Weinidog yr Alban ym mis Mehefin.

Yn y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid ar 22 Mehefin, sicrhaodd y Gweinidog gytundeb gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys y bydd yn rhoi syniad o'r cyllid canlyniadol erbyn mis Medi.

Mae gan yr oedi o ran eglurder effaith ar ein dewisiadau gwario ein hunain ac mae'r Gweinidog wedi pwyso ar Brif Ysgrifennydd y Trysorlys am ateb tebyg i'r Warant Covid. Felly, pan fydd Llywodraeth y DU yn trefnu bod symiau mawr o arian ar gael y tu allan i ddigwyddiadau cyllidol, bydd gan y llywodraethau datganoledig rywfaint o sicrwydd ynghylch y cyllid sydd ar gael cyn i sefyllfaoedd cyffredinol Adrannau o'r DU gael eu cwblhau yn Amcangyfrifon Atodol y DU.

Croesewir cefnogaeth y Pwyllgor Cyllid wrth barhau i godi'r materion hyn gyda Llywodraeth y DU.

---

**Argymhelliad 3**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi rhagor o fanylion mewn cyllidebau atodol yn y dyfodol ynghylch y cyllid canlyniadol y mae Llywodraeth Cymru yn ei chael, a dylai hyn gynnwys:**

- **pa mor fuan y mae Llywodraeth Cymru yn cael gwybodaeth am gyfrifiadau;**
- **barn ar dryloywder cyllid mewn meysydd dadleuol, megis cyllid trafnidiaeth a rheilffyrdd; a**
- **sut mae Llywodraeth Cymru yn herio penderfyniadau cyllido.**

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn parhau i adolygu ein dogfennaeth gyllidebol ac wrth asesu'r wybodaeth i gefnogi cyllidebau atodol rydym yn parhau i ymdrechu i sicrhau'r cydbwysedd cywir o ran cymesuredd.

Cyhoeddir manylion newidiadau i'n cyllideb fel rhan o bob digwyddiad cyllideb Llywodraeth Cymru. Lle y bo'n ymarferol, caiff gwybodaeth bellach ei darparu mewn perthynas â throsglwyddiadau o adrannau eraill o'r llywodraeth a sut y mae'r rhain wedi'u cyfrifo.

Pan gaiff cyllid ychwanegol ei ddyrannu gan Drysorlys EF y tu allan i ddigwyddiad cyllidol, nid yw lefel y cyllid canlyniadol bob amser yn glir ar unwaith. Y rheswm dros hyn yw bod Trysorlys EF mewn llawer o achosion yn disgwyl i adrannau Whitehall

ariannu'r gweithgarwch o fewn y cyllidebau presennol. Fel arfer, nid yw'r effaith ar setliad cyllido Llywodraeth Cymru ond yn cael ei chadarnhau adeg Amcangyfrif Atodol y DU, yn hwyr yn y flwyddyn ariannol pan fyddwn yn deall sefyllfaoedd holl Adrannau'r DU er mwyn cwblhau sefyllfaoedd y llywodraethau datganoledig. Dim ond ar ddiwedd y broses y gellir cadarnhau hyn yn llawn, ac mae angen cymryd i ystyriaeth symiau canlyniadol negyddol yn ogystal â chadarnhaol.

Mae Llywodraeth y DU'n cyhoeddi manylion llawn yr holl gyllid canlyniadol yn yr Adroddiad Tryloywder y Grant Bloc. Cyhoeddwyd y fersiwn diweddaraf ym mis Gorffennaf 2023 ac mae i'w gweld yn: Block Grant Transparency: July 2023 - GOV.UK (www.gov.uk)

Dylai Llywodraeth y DU ddarparu mwy o dryloywder ynghylch ei phenderfyniadau ariannu, yn enwedig mewn perthynas â thrafnidiaeth. O ran rheilffyrdd, mae dau fater ar wahân: effaith cynlluniau, fel HS2, ar gymharedd; a phenderfyniadau gan Lywodraeth y DU am fuddsoddi yn seilwaith rheilffyrdd Cymru a Lloegr.

O ran sut y mae Llywodraeth Cymru yn herio penderfyniadau ariannu, yn y lle cyntaf bydd pryderon yn cael eu codi drwy ymgysylltu'n rheolaidd ar lefel swyddogol a Gweinidogol. Os na fydd datrysiad digonol yn deillio o'r dull gweithredu hwn, nodir y camau nesaf yn yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol.

Rydym yn gobeithio y gallwn weithio gyda Llywodraeth y DU yn bragmataidd drwy'r trefniadau adolygu cysylltiadau rhynglywodraethol hyn cyn y bydd angen galw ar unrhyw broses ffurfiol o ddatrys anghydfodau.

---

**Argymhelliad 4**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu cymaint o wybodaeth â phosibl ynghylch maint amcangyfrifedig Cronfa Wrth Gefn Cymru o fewn cyllidebau atodol yn y dyfodol, gan gynnwys cadarnhad a yw cynlluniau i dynnu i lawr wedi digwydd ai peidio.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae holl gyllidebau Llywodraeth Cymru yn nodi lle y bwriedir tynnu cronfeydd i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru mewn priod flynyddoedd ariannol perthnasol. Yn y gyllideb atodol hon, darparwyd gwybodaeth bellach am y sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â'r balans ar Gronfa Wrth Gefn Cymru.

---

**Argymhelliad 5**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU am yr hyblygrwydd mwyaf posibl o fewn y Fframwaith Cyllidol i alluogi disgresiwn Lywodraeth Cymru dros reoli ei chyllidebau i ymdrin â'r pwysau llym y mae'n eu hwynebu, a bod hyn yn cynnwys dileu terfynau blynyddol tynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru a chynyddu maint y terfyn benthyca a Chronfa Wrth Gefn Cymru, yn unol â chwyddiant o leiaf.**

**Ymateb: Derbyn**

Ym mis Ionawr, sicrhaodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol gytundeb y Prif Ysgrifennydd y Trysorlys i gynyddu terfyn tynnu i lawr Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24, er mwyn helpu i reoli'r heriau ariannu sylweddol presennol. Er i'r cytundeb hwn gael ei groesawu, mae Llywodraeth Cymru am i hyblygrwydd cyllidebol ychwanegol fod ar waith fel mater o drefn, fel bod proses y gyllideb yn rhoi'r rhagweladwyedd a'r sicrwydd i ganiatáu inni ddefnyddio ein cyllid yn y modd mwyaf effeithiol, a hynny er mwyn darparu'r gwerth gorau am arian a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i bobl Cymru.

Mae'r ysgogiadau cyllidol sydd ar gael i ni ar hyn o bryd yn cyfyngu ar ein gallu i ymateb yn gyflym i anghenion sy'n dod i'r amlwg, gan ein gadael yn ddibynnol ar benderfyniadau a wneir gan Lywodraeth y DU ac yn agored i effaith amseru'r penderfyniadau hynny. Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid (IFS) wedi tynnu sylw gynt at yr achos dros bwerau wrth gefn gwell yng Nghymru ac i gynyddu'r terfynau tynnu i lawr, os na chânt eu diddymu. Barn IFS yw y dylai'r terfynau presennol ar y cyfanswm y gellir ei ddal mewn cronfeydd wrth gefn gael eu mynegeio mewn rhyw ffordd, ar y lleiaf, i gyfrif am dwf mewn gwario datganoledig a refeniw trethi.

Yn ei Adroddiad Dros Dro, nododd y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru fod y mater ariannol ymarferol pwysicaf yn deillio o'r cyfyngiadau a gymhwysir gan Drysorlys EF at reolaeth Llywodraeth Cymru ar ei chyllideb. Nododd fod ein gallu i fenthyca ar gyfer buddsoddiad cyfalaf ac i gario gwariant cyfalaf drosodd rhwng blynyddoedd ariannol, yn cael ei gyfyngu gan derfynau a osodwyd yn 2016-17; mae'n ofynnol cyflwyno unrhyw geisiadau am hyblygrwydd i Drysorlys EF fesul achos, ac mae'r cyfnewid ym mis Ionawr a grybwyllir uchod yn enghraifft o hyn, sy'n cymryd llawer o amser ac yn ddwys o ran adnoddau. Dywedodd hefyd ei bod yn anodd gweld pam y mae angen y cyfyngiadau hyn, o gofio bod Llywodraeth Cymru yn atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd am ei stiwardiaeth ar  wariant cyhoeddus.

Mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno sylwadau ers tro i Lywodraeth y DU am hyblygrwydd cyllidol ychwanegol yma yng Nghymru a chododd y Prif Weinidog y mater penodol o uwchraddio'r terfynau yn y fframwaith cyllidol yng nghyfarfod Cyngor y Prif Weinidog a Phenaethiaid y Llywodraethau Datganoledig yr hydref diwethaf. Rydym yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU am hyblygrwydd cyllidebol ychwanegol drwy'r sianeli rhynglywodraethol priodol.

---

**Argymhelliad 6**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu diweddariadau chwarterol i egluro effaith pwysau chwyddiant a chynnydd mewn cyfraddau llog ar brosiectau cyfalaf a gynlluniwyd a'r targedau a chanlyniadau a ddisgwylir o fuddsoddiad cyfalaf a gynlluniwyd gan Lywodraeth Cymru.**

**Ymateb:  Derbyn mewn egwyddor**

Rhoddodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wybodaeth am effaith gyffredinol chwyddiant wrth gyhoeddi Cyllideb Derfynol 2023-24 ar 28 Chwefror ac yn fwy diweddar rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf am y rhagolygon ar gyfer cyllideb Llywodraeth Cymru yn ei llythyr dyddiedig 12 Gorffennaf. Bydd y Gweinidog yn ymdrechu i ddarparu diweddariadau o'r fath pryd bynnag y cyhoeddir gwybodaeth am y Gyllideb, gan gynnwys yn y Cyllidebau Atodol.

Mae'r Gweinidog hefyd wedi dweud wrth y Pwyllgor ein bod wedi gallu rheoli'r sefyllfa gyfalaf ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf heb orfod gohirio neu ailraglennu unrhyw un o'n buddsoddiadau cyfalaf. Nid ydym wedi gwneud unrhyw newidiadau ychwaith i'n cynlluniau gwariant yn y flwyddyn ariannol hon ar hyn o bryd. Rydym yn parhau i or-raglennu cyllidebau cyfalaf, sy'n cynnig hyblygrwydd os bydd rhai prosiectau penodol yn peidio â chael eu blaenoriaethu neu eu cyflawni. O ganlyniad i symiau canlyniadol a gafwyd yng Nghyllideb y Gwanwyn a'r Prif Amcangyfrifon rydym wedi llwyddo i leihau ein gor-raglennu cyfalaf i £61m y flwyddyn ariannol hon, sy'n lefel hydrin o gofio lle'r ydym arni yn y cylch blynyddol. Byddwn yn parhau i fonitro gwariant a rhagolygon yn agos iawn drwy gydol y flwyddyn a bydd unrhyw newidiadau yn cael eu nodi mewn Cyllideb Atodol yn y ffordd arferol.

Mae Gweinidogion Cymru yn parhau i reoli eu cynlluniau gwario cyfalaf o fewn y cyllidebau a ddyrannwyd yn ystod Adolygiad o Wariant Cymru 2021. Mae'n glir y caiff chwyddiant parhaus effaith ar yr hyn y gellir ei gyflawni o fewn ein cynlluniau gwariant cyffredinol, a bydd angen i Weinidogion portffolio wneud penderfyniadau ynghylch y targedau a'r canlyniadau penodol sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau penodol.

---

Eitem 2.10

**Y Pwyllgor Biliau Diwygio**
**—**
**Reform Bill Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwygio@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwygio
0300 200 6565
**—**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddDiwygio@senedd.cymru
senedd.wales/SeneddReform
0300 200 6565

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

23 Awst 2023

Annwyl Peredur

Gwaith craffu ar ddeddfwriaeth i ddiwygio'r Senedd

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 3 Awst 2023 yn awgrymu ein bod yn archwilio'r potensial i'n Pwyllgorau weithio ar y cyd mewn perthynas â gwaith craffu ar ddeddfwriaeth sydd ar ddod i ddiwygio'r Senedd.

Cytunaf ei bod yn fuddiol archwilio lle y gallai fod potensial i'n Pwyllgorau gydweithio mewn meysydd o ddiddordeb cyffredin, a nodi cyfleoedd i sicrhau'r defnydd mwyaf effeithlon o'r amser a'r adnoddau sydd ar gael, tra'n cydnabod hefyd y gallai ein cylchoedd gwaith unigol olygu bod hefyd angen cynnal sesiynau tystiolaeth ar wahân gyda rhai rhanddeiliaid i sicrhau ffocws digonol ar y materion pwysig hyn.

Rwyf wedi gofyn i glerc y Pwyllgor Biliau Diwygio drafod hyn ymhellach gyda chlerc y Pwyllgor Cyllid, a byddaf yn sicrhau bod cyfleoedd o'r fath yn cael eu hystyried fel rhan o drafodaeth Pwyllgor y Bil Diwygio ynghylch ei ddull o graffu ar ddeddfwriaeth diwygio'r Senedd.

Yn gywir

David F. Rees.

David Rees AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Biliau Diwygio

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JJ/2233/23

Peredur Owen Griffiths MS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

1 Medi 2023

Annwyl Peredur,

Diolch am Adroddiad y Pwyllgor Cyllid mewn perthynas â Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) ("y Bil") a gyhoeddwyd ar 12 Gorffennaf 2023.

Gweler fy ymatebion i'r set o argymhellion yn yr adroddiad yn Atodiad 1 isod. Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith i amlinellu fy ymateb i'w hargymhellion nhw.

Yn gywir,

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad 1**

**Yr ymateb i Argymhellion Adroddiad y Pwyllgor Cyllid mewn perthynas â Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) ("y Bil") a gyhoeddwyd ar 12 Gorffennaf 2023**

**Argymhelliad 1**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog:**

- **yn darparu rhagor o fanylion ynghylch unrhyw reolaeth weithdrefnol gryfach a gynigir mewn perthynas â rheoliadau a wneir o dan y Bil hwn ac**
- **yn sicrhau bod Pwyllgorau'r Senedd a rhanddeiliaid eraill yn cael digon o gyfleoedd i graffu ar oblygiadau ariannol unrhyw reoliadau o'r fath.**

**Ymateb**

Er fy mod wedi penderfynu, ar ôl ystyried, na fyddaf yn cyflwyno gwelliannau eraill i'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i Reoliadau a wneir o dan y Bil, rwy'n hapus i ddarparu manylion am y mecanweithiau rheoli gweithdrefnol uwch presennol a gynigir.

Mae'r pwerau i wneud rheoliadau ar gyfer pennu targedau ym Mhennod 1 o'r Bil yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Amlinellir gofynion statudol ychwanegol yn y Bil os yw Gweinidogion Cymru am wneud rheoliadau sy'n dirymu neu'n gostwng targed (gan gynnwys disodli'r dyddiad a bennwyd â dyddiad hwyrach). Amlinellir y rhain yn adrannau 3(3) a (4) o'r Bil. Cyn gwneud rheoliadau o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru osod gerbron Senedd Cymru a chyhoeddi datganiad yn egluro pam mae Gweinidogion Cymru yn fodlon mewn perthynas â'r pwyntiau a nodir yn isadran (3). Mae hyn yn cynnig cyfle gwell i'r Senedd ddwyn Gweinidogion Cymru i gyfrif.

Rwy'n hyderus y bydd gan y Pwyllgorau a rhanddeiliaid ddigon o gyfle i ystyried goblygiadau ariannol rheoliadau a wneir o dan y Bil. Bydd unrhyw reoliadau a wneir o dan y Bil yn ddarostyngedig i'r ymgynghori priodol. Bydd asesiad effaith rheoleiddiol yn cyd-fynd â'r rheoliadau i helpu gyda'r broses graffu. Gobeithio bod hyn yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor.

**Argymhelliad 2**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn a chadarn ar gyfer unrhyw reoliadau a wneir o ganlyniad i'r Bil hwn a bod digon o amser yn cael ei ddarparu i ganiatáu i'r Senedd ystyried unrhyw oblygiadau ariannol cysylltiedig a fydd yn codi.**

**Ymateb**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Bydd y rheoliadau a wneir at ddibenion pennu targedau tymor hir ar gyfer ansawdd aer yn destun ymgynghori a chraffu priodol gan y Senedd. Yn gyson â'r wybodaeth a roddwyd yn y Memorandwm Esboniadol, gallaf hefyd gadarnhau y bydd asesiad effaith rheoleiddiol yn ein helpu i sicrhau bod tystiolaeth berthnasol yn cael ei chasglu yn y modd priodol a'i bod yn destun proses graffu.

**Argymhelliad 3**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor, cyn gynted â phosibl, ar y posibilrwydd y bydd Llywodraeth Cymru yn cael cyllid canlyniadol Barnett mewn perthynas â'r cynigion yn Lloegr i ariannu dyletswyddau ychwanegol i fonitro $PM_{2.5}$.**

**Ymateb**

Mae'r cyllid i Defra ar gyfer ehangu ei rwydwaith PM2.5 wedi'i dalu o gyllideb bresennol Defra a osodwyd yn Adolygiad Gwariant y DU yn 2021. Felly, nid yw hwn yn gyllid newydd ac ni fydd yn arwain at gyllid canlyniadol newydd i Gymru. Byddai'r cyllid hwn wedi ffurfio rhan o setliad Grant Bloc Llywodraeth Cymru bryd hynny, ond nid ydym yn derbyn gwybodaeth am ba raglenni na swyddogaethau y mae'n ymwneud â hwy yn adrannau Whitehall. Mae Gweinidogion Cymru yn gosod cyllideb Llywodraeth Cymru yn unol â'r blaenoriaethau a'r amgylchiadau yng Nghymru ac mae hyn yn cael ei gymeradwyo gan y Senedd.

**Argymhelliad 4**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu rhagor o wybodaeth am y gost sy'n gysylltiedig â'r capasiti monitro ansawdd aer, gan gynnwys yr amgylchiadau a allai arwain at ysgwyddo'r gost uwch bosibl ar gyfer yr ystod hon a'r tebygolrwydd y bydd hyn yn digwydd.**

**Ymateb**

Mae costau asesu cydymffurfedd yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â chynigion tymor hir ar gyfer ansawdd aer, gan gynnwys y costau modelu a monitro cysylltiedig, yn ddarostyngedig i ddatblygu cynigion penodol ar gyfer targedau, fforddiadwyedd yng nghyd-destun yr argyfwng costau byw presennol ac ystyriaeth Gweinidogion. Mae costau asesu cydymffurfedd ar gyfer pob targed a gynigir ar gyfer llygrydd penodol yn dibynnu ar nifer o ffactorau gan gynnwys:

- y llygrydd;
- diben y targed ar gyfer llygrydd penodol a'r metrig ar gyfer y targed;
- y dulliau a'r technolegau asesu (modelu a monitro â digon o gydraniad gofodol ac amserol ac ansawdd data); a
- Chyngor arbenigol.

Am fod yr asesiad ar gyfer mesur cynnydd tuag at bob targed yn benodol i lygrydd (dulliau a thechnolegau) bydd cyfanswm y costau hefyd yn dibynnu ar nifer a math y targedau a bennir.

Mae cynlluniau i sefydlu monitro ansawdd aer gwell ledled Cymru ar gyfer llygryddion pwysig sy'n effeithio ar iechyd y cyhoedd wedi cael eu datblygu. Cynhaliwyd adolygiad cwmpasu o leoliadau posibl ar gyfer cyfarpar monitro. Mae'r lleoliadau hyn yn bodloni'r gofynion presennol ar gyfer lleoliad cyfarpar monitro. Mae'r cynlluniau drafft terfynol ar gyfer rhwydwaith monitro gwell ar gyfer llygryddion pwysig sy'n effeithio'n bennaf ar iechyd y cyhoedd yn cael eu llunio, a byddant yn ddarostyngedig i'r dibyniaethau a nodwyd eisoes. Mae prosesau monitro ansawdd aer sy'n gysylltiedig â llygryddion sy'n gyfrifol am effeithiau ar gynefinoedd sensitif a bioamrywiaeth hefyd wedi cael eu datblygu ar wahân, gan weithio gyda'r Ganolfan Ecoleg a Hydroleg.

Y nod cyffredinol oedd sicrhau y byddai cynlluniau'n galluogi asesiadau cadarn o gydymffurfedd ag uchelgeisiau polisi presennol a newydd, targedau cyfreithiol ac amcanion.

Mae’r amcangyfrif is o gostau monitro a roddir yn y Memorandwm Esboniadol yn cynnwys ehangu’r rhwydwaith ar gyfer $PM_{2.5}$ yn unig. Byddai'r amcangyfrif uchaf o gostau'n cynnwys y gallu i fonitro llygryddion ychwanegol sy'n effeithio yn bennaf ar iechyd y cyhoedd, sef $PM_{2.5}$, $PM_{10}$, $NO_2$ ac $NH_3$. Byddai'r gost monitro uchaf yn galluogi cwmpas i ddiwallu anghenion ychwanegol yn y dyfodol ac yn galluogi bod gwaith monitro yn seiliedig ar dargedau ac amcanion ansawdd aer yn y dyfodol.

Mae darparu gwasanaeth ansawdd aer wedi cael ei ystyried hefyd ochr yn ochr ag ehangu'r rhwydwaith monitro ansawdd aer, ac mae'r costau'n cael eu gosod yn y Memorandwm Esboniadol.

| Gwariant Cyfalaf Untro | $PM_{2.5}$ | Synwyryddion cost isel | Gorsafoedd tywydd | $NO_2$ | $PM_{10}$ | $NH_3$ | Cefndir trefol – Gronynnau mân iawn o gyfansoddion organig anweddol carbon du | Cefndir gwledig – Gronynnau mân iawn o gyfansoddion organig anweddol carbon du | Gwasanaeth Ansawdd Aer | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cost uchaf | £7 miliwn | £2.3 miliwn | £180k | £2.2 miliwn | £2.2 miliwn | £35k | £420k | £420k | | £14.8 |
| Cost isaf | £7 miliwn | £2.3 miliwn | £180k | | | | £420k | £420k | | £10.4 miliwn |
| Gwariant Refeniw Blynyddol | $PM_{2.5}$ | Synwyryddion cost isel | Gorsafoedd tywydd | $NO_2$ | $PM_{10}$ | $NH_3$ | Cefndir trefol – Gronynnau mân iawn o gyfansoddion organig anweddol carbon du | Cefndir gwledig – Gronynnau mân iawn o gyfansoddion organig anweddol carbon du | Gwasanaeth Ansawdd Aer | Cyfanswm |
| Cost uchaf | £1.5 miliwn | £1.7 miliwn | £30k | £1.8 miliwn | | £277k | £228k | £228k | £1.9 miliwn | £7.5 miliwn |
| Cost isaf | £1.5 miliwn | £1.7 miliwn | £30k | | | | £228k | £228k | £1.9 miliwn | £5.5 miliwn |

**Argymhelliad 5**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu rhagor o wybodaeth am y broses ar gyfer cymeradwyo/peidio â chymeradwyo ceisiadau i'r Gronfa Cefnogi Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol.**

**Ymateb**

Mae Awdurdodau Lleol yn cyflwyno eu cynigion gan ddefnyddio ffurflen gais y Gronfa Gymorth Rheoli Ansawdd aer yn Lleol. Mae'r cynigion yn cael eu hasesu gan banel sy'n cynnwys swyddogion o'r tîm ansawdd aer a thimau y tu allan i'r gyfarwyddiaeth i sicrhau craffu annibynnol.

Mae templed asesu'r panel yn Atodiad 2 wedi cael ei ddatblygu gan ddefnyddio canllawiau ar yr arferion gorau gan y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau. Mae dull asesu ansoddol yn cael ei ddefnyddio oherwydd amrywiaeth y gweithgareddau y gallai awdurdodau lleol eu cynnal, yn unol â meini prawf grantiau. Pan fydd y panel yn teimlo bod angen sail resymegol gwell neu ragor o wybodaeth rhoddir y cyfle i awdurdodau lleol gyflwyno gwybodaeth ychwanegol, ac mae'r panel yn ystyried yr wybodaeth hon wrth wneud y penderfyniad terfynol. Rwy'n croesawu barn y Pwyllgor ar y cynnydd hwn a byddwn i'n ystyried unrhyw argymhellion ar gyfer gwella

**Argymhelliad 6**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu rhagor o wybodaeth am effaith y gwaith o ystyried a gweithredu Ardaloedd Rheoli Mwg ar y costau a amcangyfrifwyd i awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill.**

**Ymateb**

Yn y memorandwm esboniadol, rydym wedi rhoi amcangyfrif o'r costau gorfodi y gallai awdurdodau lleol eu hysgwyddo ac rydym wedi amlinellu ein bwriad i gefnogi'r costau hyn drwy'r grant LAQM. Rydym hefyd wedi rhoi amcangyfrif o gostau cyfathrebu sy'n ymwneud â rheoli mwg ac wedi amlinellu'r gyllideb rydym yn bwriadu talu'r costau hyn drwyddi er mwyn sicrhau cysondeb ac osgoi rhoi baich ar awdurdodau lleol.

Mae'r costau sy'n gysylltiedig â gweithredu ardaloedd rheoli mwg newydd yn amrywio yn dibynnu ar ffactorau fel lleoliad, dwysedd poblogaeth a nifer y stofiau nad ydynt yn cydymffurfio. Bydd y canllawiau rheoli mwg rydym wedi ymrwymo i'w datblygu yn cynnwys y cyngor manwl ar yr ystyriaethau a'r prosesau y byddai'n ofynnol i awdurdodau lleol ymgymryd â nhw pe baent yn dewis gweithredu ardal rheoli mwg newydd. Fodd bynnag, byddwn yn cynnal asesiad llawn o'r costau posibl sy'n gysylltiedig ag ystyried a gweithredu meysydd rheoli mwg wrth inni ddatblygu'r canllawiau a chaiff hyn ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r canllawiau drafft ar gyfer ymgynghori.

**Atodiad 2 – Ffurflen Asesu'r Panel Arfarnu Cymorth Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol (2023–2024)**

<table>
<tr><td colspan="2">Diben y grant</td><td>Diben y grant hwn yw cefnogi awdurdodau lleol i weithredu camau i reoli ansawdd aer yn lleol. Mae'r grant yn cefnogi prosiectau y gellir eu cyflawni ( costau a ysgwyddir) erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2023-2024. Nod y grant yw cefnogi gwaith sy'n bodloni un neu fwy o'r meini prawf isod:<br><ul><li>Atal – gweithredu sydd â'r nod o wella ansawdd aer ac yn atal crynodiadau rhag mynd yn waeth a/neu atal crynodiadau rhag mynd dros derfynau cyfreithiol.</li><li>Lliniaru – gweithredu sydd â'r nod o wella ansawdd aer mewn ardal Rheoli Ansawdd Aer.</li><li>Arloesi - gweithredu sy'n defnyddio dulliau neu dechnolegau arloesol i wella ansawdd aer a/neu leihau dod i gysylltiad ag ansawdd aer gwael.</li></ul>Felly dylid asesu ceisiadau am gyllid yn ôl eu gallu i fodloni un neu fwy o'r meini prawf uchod.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Aelodau'r Panel Arfarnu</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="3">1. Disgrifiad o'r cynnig/cynigion</td></tr>
<tr><td>1.1</td><td>Enw'r sefydliad:</td><td></td></tr>
<tr><td>1.2</td><td>Disgrifiad o'r prosiectau:</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="3">2. Nodau ac amcanion</td></tr>
<tr><td>2.1</td><td>Oes tystiolaeth glir bod angen y gweithgarwch arfaethedig?</td><td></td></tr>
<tr><td>2.2</td><td>Pa mor dda mae'r prosiectau'n cyflawni nodau atal, lliniaru a / neu arloesi?</td><td></td></tr>
<tr><td>2.3</td><td>A yw amcanion y prosiectau'n glir ac yn fesuradwy?</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="3">3. Rheoli risgiau a phroblemau</td></tr>
<tr><td>3.1</td><td>A oes unrhyw gyfyngiadau neu risgiau. Os oes, oes unrhyw gamau lliniaru y gallai'r awdurdod lleol a / neu Lywodraeth Cymru eu cymryd i leihau'r rhain?</td><td></td></tr>
<tr><td>3.2</td><td>A yw gwybodaeth am gyflwyno, gweithredu a</td><td></td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | **rheoli wedi cael eu darparu ac a yw i'w gweld yn addas?** | |
| **3.3** | **Pa weithgareddau monitro y bydd angen i Lywodraeth Cymru eu cynnal ar gyfer y prosiectau hyn?** | |
| **3.4** | **A oes unrhyw broblemau technegol neu fasnachol?** | |
| **4. Gwerth am arian** | | |
| **4.1** | **A yw lefel y cyllid yn gymesur?** | |
| **4.2** | **A yw ansawdd y prosiectau'n dda? A yw canlyniadau'r prosiectau'n rhoi gwerth am arian?** | |
| **5. Diwydrwydd dyladwy** | | |
| **5.1** | **A oes unrhyw risgiau neu broblemau'n gysylltiedig â'r prosiect?** | |
| | | |
| **Argymhelliad y panel (Dyddiad)** | | |
| ***(Os gofynnwyd am wybodaeth ychwanegol)*** **Argymhelliad terfynol y panel (Dyddiad)** | | |

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**



Rebecca Evans AS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

11 Gorffennaf 2023

Annwyl Rebecca,

CYFRINACHOL: Taliad anghyfunol untro o £1500 i staff Llywodraeth Cymru

Deallaf fod Llywodraeth Cymru wedi cytuno i roi taliad untro o £1500 i'w staff ym mis Gorffennaf i liniaru effaith costau byw uchel parhaus.

Fel rhan o'n rôl o graffu ar gyllideb Llywodraeth Cymru, mae'r Pwyllgor yn ceisio eglurder ynghylch cyfanswm gwerth y taliad hwn i Lywodraeth Cymru, yn ogystal â gwybodaeth ynghylch sut y caiff ei ariannu. Byddem yn ddiolchgar felly o gael ymatebion i'r cwestiynau a ganlyn:

1. A allwch chi egluro cyfanswm gwerth y taliad hwn ac egluro sut y caiff ei ariannu, gan gynnwys a ddaw unrhyw gyllid canlyniadol cysylltiedig gan Lywodraeth y DU, neu drwy ffyrdd eraill?

2. Pan ymddangosoch chi gerbron y Pwyllgor ar 21 Mehefin 2023 i roi tystiolaeth ar Gyllideb Atodol Gyntaf 2023-24, dywedoch chi: "we haven't made changes to our spending plans… because we are still quite early on in the financial year", a hefyd "colleagues across the different MEGs will be looking to manage their spend within the envelope that they have".

   A yw eich sefyllfa ariannu wedi newid ers gosod Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24 er mwyn rhoi'r taliad hwn i staff, ac a fydd angen trosglwyddiadau rhwng y Prif Grwpiau Gwariant i dalu'r gost hon?

3. A fydd y trefniadau ariannu ar gyfer y taliad hwn yn cael eu hadlewyrchu yn yr Ail Gyllideb Atodol, sydd ar y gweill yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol, neu a ydych chi wedi ystyried cyflwyno cyllideb atodol ychwanegol ar gyfer y taliad hwn?

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

4. A ydych chi'n disgwyl i'r taliad hwn fod yn gymwys i staff sy'n gweithio yng nghyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru heblaw Llywodraeth Cymru? Os felly, sut ydych chi'n rhagweld y caiff hynny ei ariannu? Gan fod gan y Pwyllgor rôl o ran goruchwylio'r Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol, byddai gennym ddiddordeb arbennig mewn gweld a yw Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r cyrff hynny adlewyrchu'r trefniadau hyn.

Gan ein bod yn deall bod disgwyl i'r taliad hwn gael ei wneud i staff Llywodraeth Cymru yn fuan, byddem yn gwerthfawrogi pe gallwch ymateb i'r cwestiynau hyn fel mater o frys.

Yn gywir,

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Peredur Owen Griffiths AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid,
Y Senedd,
Bae Caerdydd,
Caerdydd
CF99 1NA

1 Awst 2023

Annwyl Peredur

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 11 Gorffennaf ynglŷn â'r taliad untro o £1500 i staff Llywodraeth Cymru.

Er ein bod yn dal i weithio ar gyfanswm y gost ar gyfer gwneud y taliadau hyn i staff Llywodraeth Cymru, mae'r datganiadau gan Lywodraeth y DU ar hyn o bryd yn nodi'n glir bod rhaid rheoli dyfarniadau cyflog o'r fath o fewn y setliadau presennol ar gyfer Adrannau Whitehall, ac nad oes unrhyw gyllid canlyniadol ar gael i Gymru.

Gallaf gadarnhau nad yw ein sefyllfa ariannu wedi newid ers y Gyllideb Atodol Gyntaf. O ystyried y canllawiau clir gan Lywodraeth y DU, ein rhagdybiaeth o hyd wrth gynllunio yw na fydd unrhyw gyllid ychwanegol ar gael. Felly, rhaid i Lywodraeth Cymru wneud penderfyniadau anodd iawn ynghylch gostyngiadau yn y gwariant a gynlluniwyd er mwyn i'r taliad hwn o £1500 i staff gael ei gynnwys o fewn y cyllidebau presennol.

Mae heriau economaidd a chyllidol sylweddol wedi'i nodi eisoes yn y flwyddyn ariannol bresennol ac mae setliad ariannol presennol Cymru yn llawer llai na'r hyn sydd ei angen i allu wynebu hyn gan ddefnyddio'r cyllidebau presennol, sydd wedi'u herydu gan bwysau chwyddiant o sawl math.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae gwaith ar y gweill ar draws Llywodraeth Cymru i greu darlun eglur o'r holl bwysau ar y gyllideb, gan gynnwys y taliad hwn i staff, ac i nodi opsiynau arbed er mwyn rheoli'r sefyllfa gyffredinol. Ar hyn o bryd ni allaf gadarnhau a fydd hyn yn golygu unrhyw drosglwyddiadau rhwng Prif Grwpiau Gwariant. Bydd yr holl newidiadau yn cael eu hadlewyrchu yn yr Ail Gyllideb Atodol yr wyf yn bwriadu ei chyhoeddi ym mis Chwefror 2024, yn unol â'r amserlen arferol.

Mae'n iawn i holl weithwyr y sector cyhoeddus yng Nghymru gael eu gwobrwyo'n deg am y gwaith pwysig y maen nhw'n ei wneud. Yn anffodus, gan nad yw hi'n debygol y daw cyllid canlyniadol digonol gan Lywodraeth y DU ar gyfer setliadau cyflog, bydd angen i'r cyllid ar gyfer unrhyw ddyfarniadau cyflog gael ei reoli o fewn y setliadau presennol. Mae Llywodraeth Cymru yn gorfod gwneud gostyngiadau mewn gwariant a gynlluniwyd, fel bod modd i'r taliad hwn o £1500 gael ei gynnwys o fewn ei chyllideb bresennol, Fel yr esboniodd y Prif Weinidog yn glir yn ei lythyr at y Llywydd yn ddiweddar, mewn perthynas â Chomisiwn y Senedd, byddem yn disgwyl i'n Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol ddefnyddio dull tebyg a cheisio cynnwys y costau o fewn y setliadau cyllidebol presennol. Mae'n anochel y bydd unrhyw geisiadau pellach am gyllid ychwanegol yn arwain at doriadau pellach mewn mannau eraill.

Wrth gwrs, bydd fy swyddogion yn hapus i roi unrhyw gyngor penodol i swyddogion yn ein Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol yn ôl yr angen, i'w helpu i ystyried sefyllfa gyllidebol eu sefydliadau neu i fanylu ar y rhagdybiaethau ariannu o ran dyfarniadau cyflog Llywodraeth Cymru.

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

7 Medi 2023

Annwyl Peredur,

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod ichi y bydd cyfarfod o'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid yn cael ei gynnal ar 20 Medi yn Llundain.

Bydd y cyfarfod yn canolbwyntio ar flaenoriaethau economaidd a chyllidol. Byddaf yn pwyso ar Brif Ysgrifennydd y Trysorlys i roi eglurder ynghylch sut y mae dyfarniadau cyflog y sector cyhoeddus yn cael eu hariannu yn Lloegr, ac a fydd hyn yn arwain at gyllid canlyniadol i Gymru. Rwyf wedi bod yn ceisio cael yr wybodaeth hon yn y chwe mis diwethaf, ac roedd darparu'r wybodaeth yn un o'r ymrwymiadau a oedd yn deillio o gyfarfod diwethaf y pwyllgor.

Gan fod Datganiad Hydref y DU wedi'i gadarnhau ar gyfer 22 Tachwedd, byddaf yn egluro'r anawsterau y mae hyn yn eu hachosi o ran paratoi cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'r goblygiadau o ran yr amser a ganiateir ar gyfer craffu. Byddaf hefyd yn gofyn eto i Lywodraeth y DU ddarparu'r cymorth angenrheidiol i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus ac ymateb i bwysau chwyddiant, cyflogau a chostau yn ogystal â materion fel RAAC. Byddwn hefyd yn trafod pwysau ariannu a hyblygrwydd cyllidebol.

Yn ogystal, bydd gennym eitem ar ddiogelu ffynonellau ynni, gan adeiladu ar drafodaethau yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor gyda ffocws ar rôl seilwaith rhwydwaith a'r grid, yn ogystal â blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi mewn technolegau ynni adnewyddadwy sy'n dod i'r amlwg.

Yn sgil cam gweithredu sy'n deillio o'r cyfarfod diwethaf, bydd gofyn i Weinidogion gytuno ar y fersiwn ddiwygiedig o Gylch Gorchwyl a Gweithdrefnau Gweithredu'r Pwyllgor y mae swyddogion wedi bod yn eu hadolygu dros yr haf.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddaf hefyd yn cynnal cyfarfod dwyochrog â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys i drafod pwysau ar wariant sy’n benodol i Gymru a’r rhagolwg economaidd, yn ogystal â chymorth ar gyfer cymunedau diwydiannol.

Byddaf yn adrodd i’r Pwyllgor ar ganlyniadau’r cyfarfod.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Eitem 2.15

Archwilio Cymru
Audit Wales

1 Cwr y Ddinas / 1 Capital Quarter
Caerdydd / Cardiff
CF10 4BZ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

**Cyfeirnod:** AC377/caf
**Dyddiad cyhoeddi:** 3 Awst 2023

Annwyl Peredur

## Hysbysiad ar y sefyllfa o ran dyddiad cau archwilio

Ysgrifennaf ymhellach at eich llythyr 17 Gorffennaf 2023 ynghylch argymhelliad y Pwyllgor i roi gwybod i chi o ran pan na fydd modd i mi gwblhau archwiliad cyrff penodedig o fewn yr amserlen y cytunwyd arno.

Rwyf bellach yn eich hysbysu o ddau archwiliad nad ydynt wedi'u cwblhau o fewn y fframwaith cymwys.

| **Enw'r corff** | **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** |
|---|---|
| **Blwyddyn archwilio** | 2022-23 |
| **'Dyddiad cau' cychwynnol** | 31 Gorffennaf 2023 |
| **Sylwebaeth ar oedi** | Nododd fy nhîm archwilio ystod o wallau a diffygion mewn sawl fersiwn o'r cyfrifon drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio. |

| Enw'r corff | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
|---|---|
| | Mae'r materion hyn wedi arwain at beidio â darparu gwybodaeth gyflawn a chywir i'm tîm archwilio yn brydlon i gwblhau fy archwiliad erbyn y dyddiad cau a bennwyd. |
| **Cwblhad a ddisgwylir ar hyn o bryd** | Ar hyn o bryd rwy'n disgwyl derbyn y wybodaeth sy'n weddill gan y Bwrdd Iechyd mewn pryd i gwblhau fy archwiliad erbyn diwedd mis Awst 2023. |

| Enw’r corff | Amgueddfa Cymru |
|---|---|
| **Blwyddyn archwilio** | 2021-22 |
| **'Dyddiad cau' cychwynnol** | 31 Ionawr 2023 |
| **Sylwebaeth ar oedi** | Mae’r oedi yn ymwneud ag ymholiadau parhaus i daliadau a ddatgelir yn y cyfrifon 21-22.<br>Ar hyn o bryd rwy'n disgwyl sylwadau gan bartïon allweddol ar adroddiad posibl ar y cyfrifon ac addasiadau posibl i’m tystysgrif archwilio. |
| **Cwblhad a ddisgwylir ar hyn o bryd** | 30 Medi 2023 |

Rwy'n hapus i barhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y cynnydd gyda'r archwiliadau hyn, gan gynnwys a oes unrhyw oedi ychwanegol yn codi y tu hwnt i'r rhai a ragwelir uchod.

Rwy'n copïo'r llythyr hwn at Mark Isherwood AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.

Yr eiddoch yn gywir



**ADRIAN CROMPTON**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

cc: Mark Isherwood AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA
SeneddCyllid@senedd.cymru

8 Medi 2023

Annwyl Peredur,

**Papurau tystiolaeth yn ategu Cyllideb Ddrafft 2024-25**

Ar ôl ein cyfarfod adeiladol a'm hymateb dilynol i'ch llythyr dyddiedig 23 Mehefin ynghylch sylwadau Pwyllgorau'r Senedd ar bapurau tystiolaeth Cyllideb Ddrafft y Gweinidogion, cytunwyd i'n swyddogion gydweithio i lunio templed ar gyfer y papurau tystiolaeth.

Rwy'n awyddus i hyn barhau dros yr wythnosau nesaf wrth inni ddechrau ar y broses osod ar gyfer y Gyllideb nesaf. Byddai'n ddefnyddiol symud ymlaen gyda'r trafodaethau hyn gydag arwydd clir gan y Pwyllgor o'r hyn y byddech chi'n ei rag-weld yn hanfodol i'w gynnwys mewn papurau tystiolaeth gweinidogol. Dylai unrhyw gynigion gennych fod yn berthnasol i bob Prif Grŵp Gwariant (MEG) yn hytrach na chanolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â chynlluniau gwariant un Gweinidog. Byddwn yn ddiolchgar hefyd pe byddai'r Pwyllgor Cyllid yn darparu un rhestr o gynigion ar ran pob Pwyllgor.

Mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r themâu sy'n ymddangos yng ngheisiadau'r Pwyllgorau wedi cynnwys ceisiadau i Weinidogion ddarparu gwybodaeth sy'n ymwneud â themâu cyffredin fforddiadwyedd, blaenoriaethu, gwerth am arian a phrosesau'r gyllideb.

Bydd yr holl gynigion a ddarperir gan y Pwyllgor Cyllid yn cael eu hystyried yn ofalus, a byddwn yn rhag-weld y bydd unrhyw gynigion y cytunwn arnynt, ac y gall Gweinidogion eu rhoi ar waith yn yr amser sydd ar gael, yn cael eu cynnwys yn y templed sengl a ddefnyddir i gyflwyno'r dystiolaeth ysgrifenedig.

Mae angen cydnabod yr amgylchiadau anodd iawn yr ydym yn eu hwynebu wrth bennu'r Gyllideb sydd ar ddod. Wrth gynnig themâu, efallai yr hoffech ystyried sut y gall templed

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

weithio ym mhob blwyddyn ac nid mewn un flwyddyn yn unig pan fo’r amgylchiadau economaidd yn hynod heriol.

Eleni, mae angen pwysleisio sut mae’r amgylchiadau sy’n dylanwadu ar lunio’r Gyllideb Ddrafft yn debygol o’i gwneud yn amhosibl i Weinidogion unigol ddarparu’r manylion penodol sy’n ymwneud â phob MEG y gofynnwyd amdanynt mewn blynyddoedd blaenorol. Yn yr amser sydd ar gael, mae tystiolaeth Gweinidogion yn debygol o ganolbwyntio ar egluro unrhyw newidiadau o gynlluniau gwariant a gyhoeddwyd, ac y craffwyd arnynt, yn flaenorol. O ganlyniad, rwy’n rhag-weld Gweinidogion yn darparu unrhyw fanylion penodol i MEG yn eu hatebion i unrhyw gwestiynau a ofynnir pan fyddant yn mynychu’r Pwyllgorau ym mis Ionawr.

Er ni allaf gadarnhau pryd y bydd Gweinidogion yn darparu eu papurau tystiolaeth i’r Pwyllgorau, byddaf yn cadarnhau hyn cyn gynted ag y gallaf wneud hynny.

Rwy’n parhau i fod yn ddiolchgar i’r Pwyllgor Cyllid am ei gyfraniad parhaus wrth inni weithio gyda’n gilydd i wella’r ffordd o gyflwyno’r Gyllideb Ddrafft ac o graffu arni. Yn hyn o beth, hoffwn ailadrodd fy nghynnig ar gyfer Pwyllgorau’r Senedd sy’n gyfrifol am graffu ar y Gyllideb Ddrafft i gael y papur briffio technegol nad yw ond wedi’i ddarparu i’r tîm clercio hyd yma.

Yn gywir



**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 8

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: RE-252-2023

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru/ Welsh Parliament
Bae Caerdydd
CF99 1NA
SeneddCyllid@senedd.cymru

20 Gorffennaf 2023

Annwyl Peredur,

**Amserlen ar gyfer cyllideb 2024-25**

Rwyf wedi nodi eich llythyr at Bwyllgor Busnes, dyddiedig 7 Gorffennaf, sy'n rhoi barn y Pwyllgor Cyllid ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer cyllideb 2024-25.

Roeddwn am ddechrau drwy ailddatgan ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu digon o graffu i'r Senedd, gan gydnabod bod angen cydbwyso hyn yn gyfrannol â'r amser y mae ei hangen ar Lywodraeth Cymru i lunio ei chyllideb. Mae'n anffodus iawn unwaith eto fod amseriad digwyddiad cyllidol hydref llywodraeth y DU yn ein hamharchu ni'n dau a'i bod wedi gofyn am sbarduno amgylchiadau eithriadol ym mhrotocol y gyllideb gan effeithio ar ein gallu i gynhyrchu'r gyllideb a'r amser ar gyfer craffu.

Rwyf yn sylweddoli bod yr anawsterau sydd ynghlwm wrth lunio amserlen gyllidebol wrth ddysgu manylion ein setliad ar gyfer y gyllideb derfynol mor hwyr yn hysbys iawn. Nid wyf yn bwriadu ailadrodd y materion hyn yn fanwl, ond credaf y byddai'n ddefnyddiol pe bawn yn mynd i'r afael â rhai o'r materion penodol yn eich llythyr.

Yn glir, nid oes amser digonol ar gael yn dilyn digwyddiad cyllidol gan Lywodraeth y DU ar ddiwedd yr Hydref i sicrhau ein bod yn paratoi yn effeithiol ar gyfer y gyllideb a darparu lefel briodol o fanylder yn nogfennau'r gyllideb, gan sicrhau hefyd fod cymaint o amser â phosibl ar gael i'r Senedd graffu arnynt. Bwriedir i'r trefniadau yr ydym wedi'u cynnig ar gyfer cyllideb 2024-25, fel ar gyfer y blynyddoedd diwethaf, wneud y defnydd gorau o'r amser sydd ar gael.

Mae gweithdrefnau eithriadol wedi dod yn arferol bellach, ac, o ganlyniad, mae'r ddau weinidog sy'n gyfrifol am baratoi cyllideb ar ran pobl Cymru a'r rhai sy'n gyfrifol am graffu ar ein cynlluniau gwariant wedi cael eu gorfodi i weithio o dan amserlenni cyfyngedig.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ni ddylid tanbrisio'r gydnabyddiaeth a roddir gan y Gweinidogion i werth y broses ymgysylltu a chraffu, sydd â rôl bwysig wrth lywio a phrofi ein cynlluniau gwariant. Unwaith eto, bydd amserlen cyllideb 2024-25 yn rhoi mwy o amser ar gyfer craffu nag i'r Gweinidogion baratoi cynlluniau gwariant manwl a gwybodaeth ategol ar gyfer cyllideb ddrafft gwerth cyfanswm o fwy na £25bn. Rwyf yn siŵr y byddech yn cytuno y byddai'n fuddiol, pryd bynnag y bydd amgylchiadau'n caniatáu, i ganiatáu digon o amser i'r gyllideb ddrafft fod yn barod i sicrhau y gall ddarparu Gwerth am Arian yn y ffordd orau i bobl Cymru.

Rydych wedi awgrymu nad yw dod i wybod lefel setliad ein cyllideb tan yn hwyr yn yr Hydref yn rheswm cryf dros oedi cyn cyhoeddi cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, nac ychwaith nad hwn yw'r unig ddewis doeth sydd ar gael i Lywodraeth Cymru. At hynny, nid ydych yn credu bod effaith pwysau chwyddiant heb eu ffrwyno a'r argyfwng costau byw parhaus yn rhesymau digonol dros ohirio'r gyllideb ddrafft tan ar ôl digwyddiad cyllidol yr Hydref Llywodraeth y DU.

Ni allaf gytuno y byddai unrhyw lywodraeth o'r farn ei bod yn ddoeth cyhoeddi cyllideb ddrafft, ym mis Hydref, o dan amgylchiadau o'r fath. Byddai dyraniadau cyhoeddedig yn amherthnasol yn dilyn cyhoeddiad y Canghellor, yn nes ymlaen yn yr Hydref, a byddent yn destun tri mis pellach o bwysau chwyddiant. Byddai hyn yn ei gwneud yn amhosibl i weinidogion neu ein rhanddeiliaid a'n partneriaid cyflawni fod â digon o hyder yn y ffigurau drafft cyhoeddedig i unrhyw gynlluniau pendant gael eu gwneud. Yn yr un modd, bwriedir i waith craffu ar y gyllideb ddrafft helpu i lywio'r gyllideb derfynol a gyhoeddir ym mis Rhagfyr. Pe bai i ffigurau'r gyllideb ddrafft gael eu diwygio'n sylweddol adeg y gyllideb derfynol, sy'n debygol iawn yn y cyd-destun hwn, byddai'n cyfyngu ar allu'r Senedd i graffu ar y newidiadau hyn. Wrth ddewis dyddiad cyhoeddi diweddarach, rydym yn cynnig sicrwydd a thryloywder ar ein cynlluniau.

Rwyf wedi ymrwymo, wrth gwrs, i weithio gyda'r Pwyllgor cyn i'r Gyllideb gael ei chyhoeddi i ystyried pa sicrwydd y gallaf ei roi yn ysbryd ein trafodaethau adeiladol parhaus.

Hoffwn achub y cyfle hwn hefyd i egluro cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r broses gyllidebu dau gam a nodir yn y Protocol. Rwyf yn cydnabod ei bod o fudd i'r Pwyllgor Cyllid ganolbwyntio ar ddyraniadau trosfwaol y gyllideb strategol a'i ymgysylltiad â rhanddeiliaid, gyda phwyllgorau eraill yn canolbwyntio ar gynlluniau gwariant gweinidogion unigol. Edrychaf ymlaen at weld y broses hon yn ailddechrau os bydd llywodraeth y DU yn troi yn ôl at gadarnhau setliad ein cyllideb ar ddyddiad cynharach. Er hynny, mae un fantais fach i'r pwyllgorau portffolio gan fod y gyllideb ddrafft fanwl wedi'i chyhoeddi bron i dair wythnos yn gynharach nag y byddai fel arall, er bod toriad y Nadolig yn rhan o'r tair wythnos ychwanegol hynny.

I gloi, rwyf yn cadarnhau fy ymrwymiad i ailystyried dyddiadau cyhoeddi'r gyllideb ddrafft os bydd cyhoeddiad y Canghellor ynghylch dyddiadau digwyddiad cyllidol yr hydref yn rhoi digon o amser i ganiatáu amser ychwanegol i'w pharatoi a chraffu arni.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**
—
Welsh Parliament
**Business Committee**

Peredur Owen Griffiths AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

2 Awst 2023

**Amserlen y gyllideb 2024-25, a gweithdrefnau cyllidebol**

Annwyl Peredur

Diolch am eich ymateb ar 7 Gorffennaf ynghylch yr amserlen arfaethedig ar gyfer cyllideb 2024-25. Nododd y Pwyllgor Busnes eich pryderon am yr amserlen yn ei gyfarfod ar 11 Gorffennaf.

Rydym yn nodi bod Llywodraeth Cymru, unwaith eto, yn cynnig gwyro oddi wrth Brotocol Proses y Gyllideb y cytunwyd arno ar sail drawsbleidiol rhwng y Senedd a'r Llywodraeth yn 2017. At hynny, rydym yn ymwybodol o'r pryderon cyffredinol a fynegwyd gan nifer o gadeiryddion pwyllgorau ynghylch yr amserlenni ar gyfer cynnal gwaith craffu ar y gyllideb yn y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig gan ei fod yn disgyn dros gyfnod toriad y Nadolig, a'r anawsterau y gallai hyn eu creu o ran gwaith craffu.

Cadarnhaodd y Trefnydd fod y materion hyn wedi codi eto eleni oherwydd ansicrwydd ynghylch amseriad digwyddiad cyllidol hydref Llywodraeth y DU. Cawsom wybod hefyd gan y Trefnydd fod y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn bwriadu ymateb yn ysgrifenedig i nifer o'ch pryderon.

Er ein bod yn rhannu eich pryderon, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar yr amserlen arfaethedig, gan ddwyn i ystyriaeth parodrwydd y Trefnydd i ailasesu dyddiadau cyhoeddi'r gyllideb ddrafft, os bydd cyhoeddiad y Canghellor ynghylch

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPwyllgorBusnes@Senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
0300 200 6565

digwyddiad cyllidol yr hydref yn ddigon cynnar i ganiatáu amser ychwanegol ar gyfer paratoi a chraffu.

O ystyried eich sylw – a oedd yn cwestiynu ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i'r Protocol a grybwyllwyd uchod – penderfynodd y Pwyllgor Busnes wahodd y Pwyllgor Cyllid i ystyried a yw bellach yn dymuno adolygu addasrwydd parhaus protocol y gyllideb, a gweithdrefnau cysylltiedig, yn sgil profiad y blynyddoedd diwethaf.

Diolch ichi am eich sylw o ran y mater hwn. Edrychwn ymlaen at ymgysylltu a chynnal deialog pellach ar y materion pwysig hyn.

Yn gywir

**Y Gwir Anrh. Elin Jones AS**
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Copi i: Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**
—
Welsh Parliament
**Business Committee**

Peredur Owen Griffiths AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

4 Gorffennaf 2023

**Amserlen Cyllideb 2024-25**

Annwyl Peredur,

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 20.2, mae'r Pwyllgor Busnes wedi cael gwybod yn ffurfiol bod y Llywodraeth yn bwriadu cyhoeddi cynigion amlinellol a manwl Cyllideb Ddrafft 2024-25 gyda'i gilydd ar 12 Rhagfyr 2023, fan hwyraf, a chyhoeddi'r Gyllideb derfynol ar 27 Chwefror 2024. Rwy'n ysgrifennu i geisio barn y Pwyllgor Cyllid ynghylch y terfyn amser arfaethedig ichi gyflwyno adroddiad ar y Gyllideb Ddrafft, yn unol â gofynion Rheol Sefydlog 20.4.

Mae Rheol Sefydlog 20.5(i) yn nodi bod yn rhaid i'r Pwyllgor Cyllid fel arfer gael wyth wythnos i gyflwyno adroddiad ar y cynigion cyllideb amlinellol, tra bod Rheol Sefydlog 20.5(ii) yn ei gwneud yn ofynnol i bwyllgorau eraill gael o leiaf bum wythnos i ystyried y cynigion cyllideb manwl, o fewn y amserlen a bennwyd gan y dyddiadau uchod a hysbyswyd inni gan y Llywodraeth.

Awgrymodd y Trefnydd fod y Llywodraeth yn bwriadu trefnu dadl ar y Gyllideb Ddrafft ddydd Mawrth 6 Chwefror 2024. Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Cyllid a phwyllgorau eraill gyflwyno adroddiad ar ddydd Llun 5 Chwefror 2024, neu cyn hynny, a fyddai'n rhoi saith wythnos a phedwar diwrnod, gan gynnwys pedair wythnos fusnes, ar gyfer craffu ar gynigion amlinellol a manwl y Gyllideb Ddrafft.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPwyllgorBusnes@Senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
0300 200 6565

Yn ei llythyr, nododd y Trefnydd fod ansicrwydd unwaith eto eleni ynghylch dyddiad digwyddiad cyllidol Llywodraeth y DU ac, felly, y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu amserlen gadarn cyn gynted â phosibl ar ôl i Lywodraeth y DU wneud cyhoeddiad ynghylch ei Chyllideb.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech fynegi barn ynghylch yr amserlen arfaethedig fel y gall y Pwyllgor Busnes gyhoeddi'r amserlen i drafod y gyllideb.

Yn gywir,

**Y Gwir Anrh. Elin Jones AS**
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref

Elin Jones AS
Llywydd
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA
SeneddBusiness@senedd.cymru

9 Awst 2023

**Cynnig Newidiadau i Brotocol Busnes y Gyllideb**

Diolch ichi am anfon copi ataf o'ch llythyr at gadeirydd y Pwyllgor Cyllid dyddiedig 2 Awst, sy'n mynd i'r afael ag amserlen y gyllideb ac yn gwahodd y Pwyllgor Cyllid i ystyried a yw bellach yn dymuno adolygu addasrwydd parhaus protocol y gyllideb a gweithdrefnau cysylltiedig yn dilyn profiad y blynyddoedd diwethaf.

Rwyf wedi bod yn trafod yr angen am newidiadau i'r Protocol gyda chadeirydd y Pwyllgor Cyllid ers peth amser. Cynigiodd y Pwyllgor Cyllid nifer o newidiadau, yr wyf wedi bod yn falch o gytuno arnynt, ac rwyf wedi cynnig newidiadau pellach a allai, yn fy marn i, leddfu'r anawsterau sy'n codi mewn blynyddoedd pan fydd llywodraeth y DU ond yn cadarnhau setliad ein cyllideb yn hwyr yn nhymor yr hydref.

Rwyf wedi atodi copi o'm llythyr at gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, dyddiedig 20 Gorffennaf, sy'n ymateb i'r materion a godwyd gan y Pwyllgor Cyllid ac sy'n cynnwys fy awgrymiadau fy hun.

Ni fyddaf yn ailadrodd y materion a nodir yn y llythyr hwnnw yma, ond rwyf yn teimlo y dylwn fynd i'r afael â'r disgrifiad o ymagwedd Llywodraeth Cymru at lunio amserlenni ein cyllideb.

Nid yw'n wir, fel yr awgrymir yn eich llythyr, fod Llywodraeth Cymru wedi ceisio 'gwyro' oddi wrth y Protocol. Mae'r Protocol yn cydnabod y byddai amgylchiadau pan na fydd yr amser craffu 'delfrydol' yn bosibl (Paragraff 7). Ar ben hynny, mae paragraff 8 yn cydnabod "bod y Pwyllgor Cyllid a Llywodraeth Cymru yn cydnabod mewn rhai blynyddoedd, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru, ei bod yn bosibl na fydd modd caniatáu wyth wythnos, ac y gallai fod angen hyblygrwydd. Fodd bynnag, ni fydd byth llai na phum wythnos ar gyfer craffu ar gynigion amlinellol a manwl y gyllideb". Ers symud i

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ddigwyddiadau cyllidol y DU yn hwyr yn nhymor yr hydref, mae Gweinidogion Cymru bob amser wedi ceisio darparu'r amser mwyaf posibl sydd ar gael ar gyfer craffu.

Mae'r Protocol hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer blynyddoedd pan nad ydym yn gwybod setliad ein cyllideb tan dymor yr hydref. Mae paragraff 11 yn darparu ‘na fydd cyllideb/blwyddyn ariannol yn "arferol" pan fydd ansicrwydd sylweddol o ran sefyllfa ariannol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.’ Mae hyn wedi bod yn gymwys ers symud i ddigwyddiadau cyllidol Llywodraeth y DU yn nhymor yr hydref.  O ganlyniad, nid yw'r Gweinidogion yn gwyro oddi wrth y Protocol ond yn defnyddio ei ddarpariaethau synhwyrol i ymateb i'r amgylchiadau presennol.

Rhaid imi fynd i'r afael ag amheuon y Pwyllgor Cyllid ynghylch ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i'r Protocol. Nid yw'r awgrym hwn yn adlewyrchu ymdrechion eithriadol Gweinidogion Cymru wrth gyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft lai na 4 wythnos ar ôl cael gwybod manylion ein setliad. Nid oedd bwriad erioed i hyn ddod yn beth arferol. Nid yw'n cydnabod ychwaith fy mharodrwydd i drafod y Protocol â chadeirydd y Pwyllgor Cyllid i ddod o hyd i ateb ymarferol i'r ddwy ochr - rwyf wedi dweud fy mod yn falch o fynd ar drywydd yr ymrwymiad hwn cyn cyfnod y Gyllideb nesaf ac sy'n cyd-fynd â chyfnod yr adolygiad o wariant nesaf.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i geisio cytundeb ar newidiadau i'r Protocol a fydd yn sicrhau cydbwysedd cymesur rhwng yr amser sydd ar gael ar gyfer paratoi a chyflwyno cynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru a chraffu arnynt.

Yn gywir



**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: RE-251-2023

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA
SeneddCyllid@senedd.cymru

20 Gorffennaf 2023

Annwyl Peredur,

**Newidiadau Arfaethedig i Brotocol Proses y Gyllideb**

Diolch am eich llythyr ynglŷn ag adolygiad o Brotocol presennol Proses y Gyllideb, a'r amlinelliad o'r newidiadau posibl sydd i'w gwneud. Mae ein swyddogion wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd adeiladol i drafod a oes modd inni gytuno ar unrhyw rai o'r newidiadau rydych wedi'u cynnig cyn inni ddechrau ar y paratoadau ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2024-25.

Fel y trafodwyd yn ein cyfarfod ar 20 Mehefin, rwy'n fodlon cytuno ar yr holl newidiadau rydych wedi'u cynnig, gan gynnwys ffurfioli ein trefniadau craffu rhag-gyllidebol presennol, ar wahân i'r cynigion i eithrio wythnosau'r toriad ar gyfer craffu ar y Gyllideb (paragraff 10) ac unrhyw ymrwymiad i gyhoeddi o fewn 4 wythnos i ddigwyddiad cyllidol Llywodraeth y DU (paragraff 12).

Rwy'n croesawu ein trafodaethau cadarnhaol ar y ddau fater hwn ac yn cydnabod y dull adeiladol rydych wedi'i gymryd i gydnabod yr effaith y mae cael gwybod am fanylion setliad ein cyllideb yn ystod tymor yr hydref yn ei chael ar baratoi'r Gyllideb Ddrafft a chraffu arni. Rwy'n sicr y gallwn ddod o hyd i ateb hyblyg i'n galluogi i wneud y defnydd gorau o'r amser sydd ar gael ar gyfer ein prosesau Cyllidebol, yn hytrach na gosod terfyn o bedair wythnos yn unig. Mae'n anodd deall cymesuredd y ddadl bod angen i Bwyllgorau gael mwy na dwbl yr amser i graffu ar gynlluniau gwariant nag y mae Gweinidogion yn ei gael i'w paratoi. Byddwn yn croesawu ystyriaeth bellach ar gyfer y cynnig hwn.

Rydym yn gyfarwydd iawn â'r anawsterau hyn, ac mae eu datrys yn dibynnu ar amseriad digwyddiad cyllidol yr hydref yn llywodraeth y DU, ac efallai y byddai'n well ystyried y cynigion ar gyfer newidiadau i'n hamserlen Gyllidebol fel rhan o waith mwy hirdymor ar Ddiwygio'r Senedd. Hoffwn bwysleisio mai dyma'r prif reswm y bu'n rhaid inni sbarduno'r amgylchiadau eithriadol ym mhrotocol proses y gyllideb sy'n amharu ar ein gallu i lunio'r gyllideb a chaniatau amser ar gyfer craffu.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n hyderus y byddwn yn gallu dod i gyfaddawd ynghylch yr eithriadau rwyf wedi'u hamlinellu. Fodd bynnag, nid wyf yn hyderus y gellir cytuno ar y rhain yn gyflym a heb ddadansoddiad priodol o'r goblygiadau ar gyflawni'r Cyllidebau.

Y prif bethau rwy'n eu hystyried wrth symud ymlaen yw sut rydym yn sicrhau cymesuredd rhwng yr amser sydd ar gael i lunio'r Gyllideb a chraffu arni, gan sicrhau'r defnydd mwyaf effeithlon o adnoddau yn ystod paratoadau'r Gyllideb, a sicrhau'r hyblygrwydd angenrheidiol yn y Protocol i ymateb i heriau sydd y tu hwnt i'n rheolaeth. Nid wyf yn dymuno gwneud unrhyw newidiadau pellach heb ystyried yn gyntaf sut y maent yn effeithio ar y tri phryder allweddol hwn.

Roedd dau gynnig arall lle cytunwyd y byddai'n debygol y gallem ddod i gytundeb pe ceir esboniad ynghylch y geiriad yn eich cynigion cychwynnol. Mae'r rhain yn ymwneud â phresenoldeb Gweinidogion mewn pwyllgorau craffu rhag-gyllidebol (paragraff 5B); ac ymrwymiadau i Lywodraeth Cymru gyhoeddi mwy na dwy Gyllideb atodol o fewn blwyddyn ariannol (paragraff 34 a pharagraff 40).

Gwnaethoch nodi mai bwriad y Pwyllgor yn syml oedd cydnabod ein hymarfer presennol lle rwyf i, fel y Gweinidog Cyllid, wedi cael y pleser o fynd i'r Pwyllgor Cyllid i gefnogi proses graffu rhag-gyllidebol y Pwyllgor. Gwnaethoch esbonio nad oedd y Pwyllgor wedi bwriadu cynnig y dylai Gweinidogion eraill fynd i bwyllgorau perthnasol at ddibenion tebyg. Rwyf wedi awgrymu geiriad diwygiedig isod i'r Pwyllgor ei ystyried.

**Craffu cyn y gyllideb – Paragraff 5B.**
Mewn blynyddoedd lle ceir oedi cyn cyhoeddi'r gyllideb ddrafft, y disgwyl yw y bydd ~~Llywodraeth Cymru~~y Gweinidog Cyllid yn bresennol yn sesiynau craffu'r Pwyllgorau rhag-gyllidebol, os yw'r Pwyllgor Cyllid yn gofyn hynny. ~~Nid oes disgwyl y bydd gofyn i Lywodraeth Cymru ddarparu tystiolaeth na bod yn bresennol yn y sesiwn hon.~~

Mae'r ail awgrym o ran geiriad amgen yn ymwneud â chais y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru gyhoeddi trydedd Gyllideb Atodol mewn blynyddoedd lle bydd 'amgylchiadau eithriadol'. Gwnaethom gytuno, er nad oedd y term 'amgylchiadau eithriadol' wedi'i ddiffinio'n briodol, bod y drydedd gyllideb atodol ychwanegol ar gyfer dyraniadau Covid wedi dangos sut y mae'r trefniadau presennol yn rhoi'r hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru gyhoeddi mwy nag un Gyllideb Atodol, yn y blynyddoedd hynny pan fo Gweinidogion yn credu fod hynny'n angenrheidiol. Mae'r geiriad newydd arfaethedig ar gyfer paragraffau 34 a 40 isod.

**Para 34 – Cyllidebau Atodol**
Er mwyn sicrhau tryloywder symudiadau ariannol yn ystod y flwyddyn, bydd Llywodraeth Cymru yn ~~parhau i osod~~gosod dwy gyllideb atodol bob blwyddyn~~, (neu fwy mewn blwyddyn 'eithriadol')~~, yn amodol ar y ddau baragraff canlynol. Mae Llywodraeth Cymru'n cadw'r hyblygrwydd i gyhoeddi cyllideb atodol ychwanegol pe bai'n penderfynu gwneud hynny.

**Para 40 – Cyllidebau Atodol**
Mae unrhyw newid i'r adnoddau sydd eu hangen ar y cyrff hyn a ariennir yn uniongyrchol yn dibynnu ar Lywodraeth Cymru yn cyflwyno cynnig cyllideb atodol. ~~O dan y trefniadau diwygiedig, mae hyn yn parhau i fod yn wir gan fod newidiadau i'r cynnig cyllidebol y berthnasol i Lywodraeth Cymru yn unig.~~ Fel y nodwyd ym mharagraff 26, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno ~~cyllidebau atodol yr un mor aml ag o'r blaen. Mae~~o leiaf ddwy gyllideb atodol ym mhob blwyddyn ariannol. Bydd Llywodraeth Cymru ~~felly'n ymrwymo i barhau i gysylltu'n~~yn cysylltu'n rheolaidd â'r cyrff a ariennir yn uniongyrchol ~~a cheisio darparu ar gyfer~~ac yn ceisio bodloni eu gofynion ariannol ~~yn ystod~~o fewn y flwyddyn drwy broses y gyllideb atodol. Bydd unrhyw gynnig i amrywio pa mor aml y cyflwynir cyllidebau atodol yn ystyried gofynion cyrff a ariennir yn uniongyrchol.

Pan wnaethom gyfarfod ar 20 Mehefin, nodais y byddwn yn cynnig rhai newidiadau pellach i'r Protocol, sydd â'r bwriad o gadarnhau a chryfhau ein trefniadau cyllidebol mewn blynyddoedd lle nad ydym yn gallu cyhoeddi Cyllideb Ddrafft tan nes ymlaen yn nhymor yr hydref. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Pwyllgor ystyried y cynigion a nodwyd yn y tabl isod fel rhan o unrhyw ddiwygiadau y byddwn efallai'n cytuno i'w gwneud i fersiwn gyfredol Protocol Proses y Gyllideb.

| Newid arfaethedig | Safbwynt Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| ***Cydnabod rôl y Gweinidog Cyllid a'r Pwyllgor Cyllid wrth graffu ar y Protocol a'r Rheolau Sefydlog***<br><br>*Mewnosod fel paragraff 25 newydd o dan yr is-bennawd 'Craffu ar y Gyllideb'*<br><br><u>Geiriad arfaethedig</u><br><br>Bydd ymarfer craffu'r Pwyllgor Cyllid ar y Gweinidog Cyllid yn canolbwyntio ar gyfrifoldeb strategol cyffredinol y Gweinidog Cyllid am ddyrannu'r cyllidebau Prif Grŵp Gwariant cyffredinol. Bydd y Pwyllgor Cyllid yn cydnabod bod craffu dyraniadau ar gyfer polisïau a rhaglenni unigol yn syrthio'n fwy priodol o dan gyfrifoldeb pwyllgorau 'pwnc' y Senedd, gyda chwestiynau'n cael eu gofyn i'r gweinidog portffolio priodol. | Roedd y Protocol a'r diwygiadau dilynol i'r Rheolau Sefydlog yn adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng Cyllideb ddrafft amlinellol (Cam 1) a chynlluniau gwariant adrannol, manwl (Cam 2).<br><br>Er y cyhoeddwyd y ddau gam gyda'i gilydd yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r gwahaniaeth rhwng cyfrifoldebau amlinellol a strategol y Gweinidog Cyllid a chyfrifoldebau gwariant adrannol manwl Gweinidogion portffolio'n parhau.<br><br>Mae Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid wedi cydnabod bod nifer o faterion portffolio penodol wedi'u codi yn sesiynau craffu blaenorol y Pwyllgor Cyllid ar y Gyllideb, er eu bod wedi'u cyflwyno'n fwy priodol i'r Gweinidogion portffolio perthnasol. Mae'r Cadeirydd wedi nodi na fydd yn caniatáu cwestiynau penodol am y portffolio yn y dyfodol. |
| ***Gosod paragraff Newydd cyn Para 9.***<br><br>Rhaid i'r Trefnydd roi gwybod i'r Pwyllgor Busnes ar ba ddyddiad y bydd y Cyllidebau Drafft Manwl ac amlinellol yn cael eu gosod, a bydd Cynnig y Gyllideb Flynyddol yn cael ei gyflwyno o leiaf pythefnos cyn toriad yr haf bob blwyddyn. Yn y blynyddoedd pan mae Llywodraeth y DU yn nodi nad yw'n bwriadu rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am lefel Setliad y Gyllideb tan yr hydref, bydd y Trefnydd yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor Busnes na fydd y dyddiadau hyn yn gyhoeddus nes y bydd dyddiad digwyddiad cyllidol yr hydref Llywodraeth y DU yn gyhoeddus. | Dros y blynyddoedd diwethaf, mae llythyr y Trefnydd at y Pwyllgor Busnes wedi cynnig dyddiadau ond wedi nodi y gallai'r rhain newid. Mae hyn wedi arwain at ansicrwydd o ganlyniad i ddiffyg eglurder gan Lywodraeth y DU. Mae'r Gweinidogion Cyllid wedi gorfod ysgrifennu at y Pwyllgorau Busnes a Chyllid i ofyn am amynedd y Pwyllgorau o ran y newidiadau i'r dyddiadau arfaethedig.<br><br>Mae newid y dyddiad cau i'r Trefnydd roi gwybod i'r Pwyllgor Busnes yn adlewyrchu effaith penderfyniadau Llywodraeth y DU yn well.<br><br>Efallai y bydd hyn yn golygu newid i SO20.2 a SO 20.3. |

| Newid arfaethedig | Safbwynt Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| | |
| ***Gosod paragraff newydd ar ôl Para 11***<br><br>Bydd Cyllidebau Drafft a gyhoeddwyd mewn blynyddoedd lle bu adolygiad gwariant yn wahanol i'r Cyllidebau Drafft a gyhoeddwyd ar gyfer blynyddoedd dilynol mewn cyfnod aml-flwyddyn. Cydnabyddir y bydd y Gyllideb Ddrafft gyntaf a gyhoeddir yn dilyn adolygiad gwariant yn cynnwys mwy o fanylder nag yn y blynyddoedd diweddarach, sy'n adlewyrchu y bydd cynlluniau eisoes wedi'u cyhoeddi gyda chyllidebau drafft ar ôl yr Adolygiad Gwariant, gan adlewyrchu newidiadau i'r cynlluniau manylach hyn. | Yn ystod y broses o graffu ar y gyllideb gyntaf mewn cyfnod amlflwyddyn newydd, bydd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru roi mwy o wybodaeth nag y byddent mewn Cyllidebau ym mlynyddoedd diweddarach y cyfnod adolygiad o wariant. Mae angen cydnabod y gwahaniaeth rhwng y digwyddiadau cyllidol hyn.<br><br>Bydd cydnabod nad oes angen cyflwyno gwybodaeth ailadroddus o'r flwyddyn gyntaf yn hwyluso cyflwyno gwybodaeth yn y blynyddoedd diweddarach o fewn y graddfeydd amser a orfodwyd gan gyhoeddiadau hwyr Llywodraeth y DU ynghylch ein setliad Cyllideb. |
| ***Mewnosod paragraff newydd***<br><br>Mewnosod fel paragraff 23 newydd o dan yr is-bennawd 'Craffu ar y Gyllideb'<br><br>Bydd Gweinidogion yn rhoi tystiolaeth ysgrifenedig i bwyllgorau'r Senedd i gefnogi eu cynlluniau gwariant ar gyfer y Gyllideb Ddrafft. Bydd Gweinidogion yn anelu i ddarparu fersiwn Saesneg pob papur o fewn un wythnos i gyhoeddi'r Gyllideb ddrafft ac, os yw'r amserlen yn caniatáu, o leiaf pythefnos cyn y cyfarfod pwyllgor. Bydd fersiynau Cymraeg y papurau'n cael eu darparu o leiaf dau ddiwrnod gwaith cyn y cyfarfod Pwyllgor. *Ni fydd Pwyllgorau'r Senedd na Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi papurau nes y bydd y fersiynau Cymraeg wedi'u darparu i sicrhau cydymffurfiaeth ag ymrwymiadau statudol Llywodraeth Cymru i gyhoeddi gwybodaeth yn ddwyieithog.* | Mae'r cynnig yn ceisio cydnabyddiaeth ynghylch yr amser y bydd yn ei gymryd i gynhyrchu'r wybodaeth hon ac mae'n adlewyrchu'r cytundeb cyfredol rhwng y Pwyllgorau a Gweinidogion.<br><br>Mae Gweinidogion wedi ymrwymo i ddarparu gwybodaeth i gefnogi craffu yn ddwyieithog ar y Gyllideb Ddrafft. Fodd bynnag, mae paratoi papurau tystiolaeth yn dasg y mae'n rhaid iddynt ei gohirio nes y byddant wedi cyflwyno eu cyfraniadau i ddogfennau cyhoeddedig y gyllideb. |

Ysgrifennais atoch ar 15 Mehefin i gefnogi cynnig y Pwyllgor o ran y newidiadau i'r Datganiad o Egwyddor sy'n llywodraethu'r broses o graffu ar y cyllid a ddyrennir i Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol.

Rwyf hefyd yn awyddus i archwilio newidiadau i alluogi'r Senedd i gymeradwyo'r cynnig ar benderfyniad Cyfraddau Treth Incwm Cymru (WRIT) cyn y diwrnod y bydd Cynnig y Gyllideb Flynyddol yn cael ei ystyried. Mae hwn yn drefniant ymarferol i roi amser, os bydd angen, i dynnu'r cynnig ar benderfyniad Cyfraddau Treth Incwm Cymru yn ôl, ei newid, a'i ailgyflwyno cyn i Gynnig y Gyllideb Flynyddol gael ei gymeradwyo.

Awgrymaf, ar ôl cynnal trafodaethau pellach, y dylem geisio gwneud y newidiadau i'r Protocol a'r Rheolau Sefydlog uchod fel un pecyn sengl, cyfunol o newidiadau, yn hytrach na cheisio cymeradwyaeth y Senedd mewn modd mwy tameidiog.

Rwy'n croesawu'r trafodaethau adeiladol sydd eisoes wedi'u cynnal ynglŷn â'r cynigion ar gyfer newidiadau i'r Protocol a'n proses Gyllidebol. Rwy'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn parhau i adolygu'r sefyllfa hon yn ystod cyfnod y Gyllideb a sicrhau deialog sy'n cyd-fynd â'r cyfnod Adolygiad o Wariant nesaf.

**Dogfennau sy'n cyd-fynd â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru**

Wrth ddatblygu'r materion hyn, bydd Gweinidogion yn ystyried y materion a godwyd gennych yn eich llythyr ar 23 Mehefin, lle gwnaethoch roi gwybod am sylwadau gan Bwyllgorau'r Senedd ynghylch amseroldeb a thryloywder deunydd ysgrifenedig a ddarparwyd gan Weinidogion Cymru i gefnogi ein cynlluniau gwariant.

Gan droi at y sylwadau gan y Pwyllgorau, rydym wedi cytuno yn ein trafodaethau ar y Protocol sut y mae ymdrech Llywodraeth y DU i gadarnhau manylion ein setliad cyllidebol ar ddiwedd tymor yr hydref yn cael effaith ar y broses graffu, a'i fod hefyd yn cael effaith yr un mor sylweddol ar yr amser sydd ar gael i Weinidogion baratoi'r wybodaeth gyllidebol. Yn y cyd-destun hwn, hoffwn fynd i'r afael â rhai o'r materion rydych wedi'u codi yn ymwneud ag amseroldeb yr wybodaeth rydym yn ei darparu.

I ddechrau, y dyddiadau pan fydd Gweinidogion yn gallu darparu tystiolaeth ysgrifenedig i Bwyllgorau'r Senedd: mae rhai Pwyllgorau wedi mynegi siom nad oedd y dystiolaeth wedi'i darparu ar y dyddiadau a nodwyd yn y ceisiadau cychwynnol am dystiolaeth. Er bod Gweinidogion yn deall awydd y Pwyllgor i dderbyn y dystiolaeth cyn gynted â phosibl, yn anaml iawn y bydd yn bosibl i Weinidogion roi tystiolaeth yn y diwrnod neu ddau yn dilyn cyhoeddiad y Gyllideb Ddrafft, yn enwedig yn ddwyieithog, oherwydd eu bod wedi bod yn canolbwyntio ar gwblhau eu cynlluniau gwariant. Os nad yw hyn wedi bod yn bosibl, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cysylltu â thimau clercio'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl i gytuno ar y dyddiadau amgen nesaf sydd ar gael ar gyfer darparu'r dystiolaeth.

Mae gallu Gweinidogion i sicrhau perthynas agored gyda phwyllgorau a nodi pa dystiolaeth nad oes modd ei darparu o fewn yr amserlen a roddwyd yn dangos pa mor bwysig y mae Gweinidogion yn ei ystyried yw'r broses o graffu ar y cynlluniau gwariant. Os nad yw'n opsiwn i Weinidogion ail-negodi'r dyddiadau ar gyfer cyflwyno, eto byddwn yn gofyn ein bod yn ystyried clustnodi cyfnod cymesur o amser yn y lle cyntaf i alluogi i swyddogion gynhyrchu tystiolaeth o ansawdd uchel i'r Pwyllgorau.

Mae'n werth nodi nad oes angen i Bwyllgorau aros i'r papurau tystiolaeth gael eu cyhoeddi cyn dechrau craffu ar y Gyllideb Ddrafft. Cytunodd y Gweinidogion i gyhoeddi tablau Llinellau Gwariant yn y Gyllideb ar gais y Pwyllgorau i ategu'r manylion yr oedd y Pwyllgorau'n credu oedd eu hangen er mwyn craffu'n iawn ar y Gyllideb Ddrafft. Mae cyhoeddi'r tablau yn galluogi'r Pwyllgorau i ddadansoddi'r tablau Llinellau Gwariant yn y

Gyllideb y gwnaethant ofyn amdanynt heb orfod aros am yr esboniad o'r dyraniadau gwariant ym mhapurau tystiolaeth y Gweinidogion.

Rwyf hefyd wedi ystyried sylwadau'r Pwyllgorau'n ymwneud â chynnwys papurau tystiolaeth y Gweinidogion. Yn hyn o beth, gall fod yn ddefnyddiol pe bai ein swyddogion yn cydweithio i gynhyrchu templed ar gyfer y papurau tystiolaeth, a all dynnu ar yr enghreifftiau blaenorol o arferion da y mae rhai o'r Pwyllgorau wedi cyfeirio atynt. Gall hefyd fod yn ddefnyddiol pe bai'r Pwyllgorau Senedd sydd â chyfrifoldeb am graffu ar y Gyllideb Ddrafft yn cael y nodyn briffio technegol a roddwyd i'r tîm clercio yn unig yn y gorffennol. Byddai fy swyddogion yn fwy na pharod i drefnu hyn.

Yn ail, rwy'n cydnabod sylwadau'r Pwyllgor Cyllid nad yw ymatebion Llywodraeth Cymru i adroddiadau Pwyllgor ar y Gyllideb Ddrafft ar gael yn ddigon buan cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol. Gwnaeth y Prif Weinidog ymrwymiad i Aelodau y byddai ymatebion yn cael eu darparu erbyn y diwrnod cyn y ddadl ar y Gyllideb derfynol, fan bellaf. Ein nod o hyd yw i ddarparu ymatebion dwyieithog cyn diwedd y dydd ar y diwrnod cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol, a bydd Gweinidogion yn gwneud pob ymdrech i gyflawni'r amcan hwn yn ystod proses y Gyllideb ar gyfer 2024-25.

Mae rhai Pwyllgorau wedi awgrymu y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i esbonio'r gwahaniaethau rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol. Mae wedi bod yn arfer gennym ers peth amser i gyhoeddi manylion penodol a llawn y newidiadau rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol mewn pennod o'r Nodyn Esboniadol ar y Gyllideb Derfynol, sy'n cael ei gyhoeddi un wythnos cyn y ddadl ar Gynnig y Gyllideb Flynyddol. Ni fyddai digon o amser ar gael i Weinidogion ysgrifennu at Bwyllgorau i ailadrodd y manylion hyn ac nid wyf yn credu y byddai unrhyw fudd ymarferol i Bwyllgorau pe bai Gweinidogion yn gwneud hynny.

Fodd bynnag, mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i edrych ar sut y gellir gwneud newidiadau i'r modd y bydd gwybodaeth yn cael ei chyflwyno ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion friffio fy nghydweithwyr ar y Cabinet ar yr argymhellion a gyflwynwyd yn eich llythyr diweddaraf, a byddaf yn edrych am gyfleoedd i sicrhau gwelliannau. Ar y sail honno, edrychaf ymlaen at barhau â'r trafodaethau fel rhan o'n sgyrsiau parhaus ynghylch Protocol y Gyllideb a'n prosesau Cyllideb.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon